# Prosiect Cofebion Rhyfel Powys

## Pecyn Ysgolion a Grwpiau Addysgol

Y Rhyfel Byd Cyntaf 1914-18







Dechrau

Yn ôl i'r cyflwyniad

Powys
Brecon Beacons National Park
heritage treftadaeth
LOTTERY FUNDED
ARIENNIR GAN Y LOTERI
Cadw
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Sut i ddefnyddio'r pecyn hwn

Mae'r pecyn hwn yn helpu ysgolion a grwpiau addysgol i gofnodi cofebion y Rhyfel Byd Cyntaf ac i ymchwilio iddynt.

Mae'n cynnwys gwybodaeth am y rhyfel, am y gwahanol fathau o gofebion ac am y ffordd y gall ysgolion a grwpiau addysgol gofnodi cofebion, ymchwilio iddynt a gofalu amdanynt. Mae hefyd yn cynnwys gweithgareddau, adnoddau a manylion cyswllt.

Mae'r pecyn wedi ei rannu'n saith adran:


1 **Coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf**

2 **Y Rhyfel Byd Cyntaf**
- Sut dechreuodd y cyfan?
- Hanes byr iawn o'r rhyfel
- Cymru a'r Rhyfel Byd Cyntaf
- Powys
- Effaith y rhyfel ar gymunedau a'r bobl a ddaeth trwyddi

3 **Cofebion rhyfel**
- Beth yw cofeb ryfel?
- Hanes cofebion rhyfel
- Mathau o gofebion rhyfel
- Symboliaeth cofebion
- Epitaffau
- Pwy sy'n cael eu coffáu ar gofebion?
- Sut y cofnodwyd yr enwau

4 **Ymchwilio i gofebion rhyfel**
- Beth y gallwch ei ddysgu o gofeb ryfel
- Sut i ymchwilio i gefndir eich cofeb ryfel
- Sut i ymchwilio i'r enwau ar eich cofeb ryfel
- Dechrau arni – y broses ymchwilio

5 **Cofnodi cofebion rhyfel a gofalu amdanynt**
- Cofnodi eich cofeb
- Monitro'ch cofeb
- Cynnal a chadw'ch cofeb a'i thrwsio

6 **Gweithgareddau**
- Cysylltiadau â'r Strategaeth Llythrennedd a Rhifedd
- Cysylltiadau'r gweithgareddau â'r cwricwlwm
- Gweithgaredd 1: Ymweld â chofeb ryfel CA2 CA3
- Gweithgaredd 2: Ymchwilio i gofeb ryfel CA2 CA3
- Gweithgaredd 3: Ymchwilio i'r enwau ar gofeb ryfel CA2 CA3
- Gweithgaredd 4: Epitaffau CA2 CA3
- Gweithgaredd 5: Dylunio cofeb ryfel CA2 CA3

7 **Adnoddau**
- Adnodd 1: Taflen Gofnodi Cofeb Ryfel CA2
- Adnodd 1a: Taflen Gofnodi Cofeb Ryfel CA3/4
- Adnodd 2: Adroddiad am Gofeb Ryfel o'r Archifau
- Adnodd 2a: Adroddiad o Gyfarfod Cysegru Cofeb Ryfel
- Adnodd 3: Enwau sydd ar Gofeb Ryfel Eglwys y Santes Fair, Llanfair-ym-Muallt,
- Adnodd 4: Taflen i Gasglu Data wrth Ymchwilio i Enwau
- Adnodd 5: Enghreifftiau o Epitaffau
- Adnodd 6: Dyluniad cofebion rhyfel
- Adnodd 7: Map o Ewrop yn 1914
- Adnodd 8: Catrodau Cymru
- Adnodd 9: Rhestr o'r gwledydd oedd yn rhan o'r rhyfel
- Adnodd 10: Ffurflen Gofnodi Cofeb Ryfel



Cliciwch ar y penawdau isod i symud rhwng yr adrannau …

yn ôl i'r cyflwyniad

Y dudalen nesaf

Sut i ddefnyddio'r pecyn hwn | Coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf | Y Rhyfel Byd Cyntaf | Cofebion rhyfel | Ymchwilio i gofebion rhyfel | Cofnodi cofebion rhyfel a gofalu amdanynt | Gweithgareddau | Adnoddau

# 1 Coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf

Mae Cyngor Sir Powys yn coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf gyda Phrosiect Cofebion Rhyfel Powys, sy'n anrhydeddu'r aberth a wnaeth pobl Powys yn ystod y rhyfel. Mae'r prosiect yn annog pobl leol i ddarganfod mwy am eu cofebion rhyfel ac am y bobl sy'n cael eu coffáu arnynt. Mae'r pecyn hwn yn rhan bwysig o'r prosiect. Mae'n helpu ysgolion a grwpiau addysgol i gofnodi'r cofebion ac ymchwilio i'r straeon y tu ôl iddynt ac mae'n rhoi cyngor ymarferol ar sut i ofalu am y cofebion gwerthfawr hyn. Ariennir y prosiect gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, Cyngor Sir Powys, Cadw ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Yn ystod y canmlwyddiant, mae Cyngor Powys yn cofnodi'r holl gofebion rhyfel ym Mhowys mewn cronfa ddata a fydd ar gael i'r cyhoedd. Y nod yw sicrhau bod y cofebion unigryw hyn yn cael eu catalogio a'u cadw ar gyfer yr oesoedd a ddêl ac nad anghofir yr aberth a wnaed gan y rhai sy'n cael eu cofio.

Mae'r prosiect yn dibynnu ar gyfraniad a chefnogaeth y cyhoedd. Gall ysgolion a grwpiau ieuenctid ddefnyddio cofeb ryfel leol i'w hysgogi i ddysgu ac i gymryd rhan yn y broses gofnodi.

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys gwybodaeth a gweithgareddau fel y gall athrawon annog disgyblion i archwilio cofeb ryfel leol gan ddefnyddio nifer o sgiliau trawsgwricwlaidd fel llythrennedd a thechnoleg gwybodaeth.

## Grwpiau Ieuenctid

Mae'n hawdd addasu'r holl weithgareddau dysgu i gael eu defnyddio gan grwpiau ieuenctid sy'n dymuno defnyddio cofeb ryfel i'w helpu i fodloni gofynion bathodynnau a gwobrau neu i ymchwilio i hanes lleol.

Dylai grwpiau sydd am helpu i archwilio cofeb a'i chofnodi ar gyfer prosiect Cofebion Rhyfel Cyngor Sir Powys ddefnyddio'r Ffurflen Gofnodi Cofebion Rhyfel sydd yn Adnodd 10 a darllen y canllawiau a welir yma neu'r cyngor manylach a geir yn y Pecyn Cymunedol.

Rhowch wybod i ni, Tîm Prosiect Cofebion Rhyfel Cyngor Sir Powys, am unrhyw brosiect rydych yn cymryd rhan ynddo sy'n gysylltiedig â chofio'r Rhyfel Byd Cyntaf. Mae gennym lawer o adnoddau ac efallai y gallwn helpu. Cysylltwch â ni drwy:

- E-bost: warmemorials@powys.gov.uk
- Post: Swyddog Prosiect Cofebion Rhyfel Powys, Neuadd y Sir, Llandrindod, Powys LD1 5LG.
- Ffôn: 0845 6027030 / 01597 827460

Ewch yma i gael rhagor o wybodaeth

Y dudalen nesaf

www.Powys.gov.uk

Sut i ddefnyddio'r pecyn hwn | Coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf | Y Rhyfel Byd Cyntaf | Cofebion rhyfel | Ymchwilio i gofebion rhyfel | Cofnodi cofebion rhyfel a gofalu amdanynt | Gweithgareddau | Adnoddau

# ② Y Rhyfel Byd Cyntaf



Roedd y Rhyfel Byd Cyntaf yn wrthdaro byd-eang. Cymerodd 70 miliwn o filwyr, morwyr ac awyrenwyr ran yn y rhyfel ac ni ddaeth 10 miliwn ohonynt fyth adref. Ni chafwyd erioed y fath golledion mewn rhyfel.

## Sut y dechreuodd y cyfan?

Yn 1914, roedd yn Ewrop nifer o ymerodraethau grymus, pob un yn awyddus i ennill rhagor o dir (fel a welir ar y map yn Adnodd 7). I'r canol a'r dwyrain, roedd ymerodraethau'r Almaen, Awstria-Hwngari a Rwsia ac i'r gorllewin, roedd ymerodraethau Ffrainc a Phrydain. Bu'r Almaen yn buddsoddi'n drwm yn ei byddin ac, fel Prydain, yn ei llynges.

Ar 28 Mehefin 1914, lladdwyd yr Arch-ddug Franz Ferdinand yn Sarajevo gan genedlaetholwr Bosniaidd. Ar y pryd, roedd Sarajevo yn rhan o Ymerodraeth Awstria. Fis yn ddiweddarach, aeth Awstria ati i oresgyn Serbia a oedd, yn ei barn hi, wedi chwarae rhan yn y llofruddiaeth. O ganlyniad i hyn, gwelwyd Rwsia'n cynnull ei milwyr yn erbyn Awstria er mwyn cefnogi Serbia. Wedyn cyhoeddodd yr Almaen ryfel yn erbyn Rwsia, ac yn erbyn Ffrainc bron yn syth wedyn.

Ar 4 Awst, dangosodd Prydain ei chefnogaeth i Ffrainc a Rwsia drwy gyhoeddi rhyfel yn erbyn yr Almaen. Dros y pedair blynedd nesaf, tynnwyd llawer o wledydd eraill i mewn i'r rhyfel ac mae rhestr lawn i'w gweld yn Adnodd 9.

Yr enwau cyffredin ar y ddwy ochr oedd Pwerau'r Cynghreiriaid (Prydain, Ffrainc, Rwsia, UDA) a'r Pwerau Canolog (Awstria-Hwngari, yr Almaen a Thwrci). Penderfynodd rhai o wledydd Ewrop, fel yr Iseldiroedd a gwledydd Sgandinafia i gyd, y byddent yn aros yn swyddogol niwtral.



## Hanes y rhyfel yn fyr iawn

Nid yw'n ymarferol ceisio rhoi crynodeb o'r Rhyfel Byd Cyntaf yma. Fodd bynnag, dylid cofo nad dim ond yn ffosydd Ffrainc a Gwlad Belg yr ymladdwyd y rhyfel, er bod hynny'n un o'r agweddau mwyaf erchyll. Roedd yn rhyfel byd-eang a ymladdwyd ar y tir a'r môr ac yn yr awyr, o ffosydd Ffrynt y Gorllewin i draethau Gallipoli, anialdiroedd yr Aifft a'r tu hwnt.

Dechreuodd rhan Prydain yn y rhyfel ar 7 Awst 1914, pan laniodd ei milwyr yn Ffrainc i helpu i ddal yr Almaen yn ôl rhag goresgyn Gwlad Belg. Daeth i ben pan arwyddwyd Cadoediad Compiègne a ddaeth i rym am 11am ar 11 Tachwedd 1918. Dyma'r dyddiad a'r amser a gofir bob blwyddyn ar Ddiwrnod y Cadoediad.

Ysgrifennwyd llawer am y Rhyfel Byd Cyntaf a bydd gan y rhan fwyaf o lyfrgelloedd ddewis cynrychioliadol o lyfrau. Fodd bynnag, os hoffech drosolwg cryno a syml, rhowch gynnig ar The First World War a gyhoeddwyd gan Usborne ar y cyd â'r Imperial War Museum. Mae'r wefan gysylltiedig, www.usborne.com/quicklinks (nodwch y geiriau allweddol The First World War) yn cynnig dolenni i nifer fawr o wefannau gyda llinellau amser, caneuon, mapiau, clipiau ffilmiau, dyddiaduron a llythyrau.



*www.usborne.com/quicklinks*

Y dudalen nesaf

www.Powys.gov.uk

Sut i ddefnyddio'r pecyn hwn | Coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf | Y Rhyfel Byd Cyntaf | Cofebion rhyfel | Ymchwilio i gofebion rhyfel | Cofnodi cofebion rhyfel a gofalu amdanynt | Gweithgareddau | Adnoddau

## Cymru a'r Rhyfel Byd Cyntaf

Yn 1914, i bob pwrpas, roedd Cymru'n rhan o Loegr a chyfeirid ati'n swyddogol fel 'Cymru a Sir Fynwy'.



Pan gyhoeddwyd y rhyfel, aeth llu o Gymry ifanc ati i listio, hyd yn oed rai mewn swyddi neilltuedig fel glowyr a gweithwyr dur. Ym mhedair blynedd y rhyfel, recriwtiwyd 272,924 o ddynion a merched o Gymru, yn bennaf o siroedd Morgannwg a Mynwy. I ddechrau, gwirfoddolwyr oeddent; ond erbyn 1916, roeddent dan orfodaeth i ymrestru. Dynion oedd y rhan fwyaf ond roedd gan fenywod ran hanfodol i'w chwarae, er enghraifft, yn nyrsio ac yn gyrru ambiwlansys.

Cofnodwyd yn Llyfr Coffadwriaeth Cymru bod tua 35,000 o'r rhai a ymrestrodd wedi marw neu ar goll, sef tuag un o bob wyth o'r holl Gymry a aeth i'r rhyfel neu bron 1.5% o holl boblogaeth Cymru.




## Powys




Ar ddechrau'r rhyfel, roedd poblogaeth Powys tua 135,000, ychydig dros 5% o boblogaeth Cymru. Ar sail ystadegau gwladol, mae'n debygol fod tua 15,000 o ddynion wedi ymuno â'r lluoedd arfog o siroedd Trefaldwyn, Maesyfed a Brycheiniog, fel yr oeddent ar y pryd ac, o'r rheiny, bod tua 2,000 wedi'u cofnodi fel rhai a fu farw neu a gollwyd. Mae hyn yn nifer fawr ar gyfer un o ardaloedd lleiaf poblog Cymru.

Roedd dynion o Bowys yn gwasanaethu ym myddin Prydain, yn y Llynges Frenhinol a'r Môr-filwyr Brenhinol, ac yn y Corfflu Hedfan Brenhinol (a ddaeth yn Llu Awyr Brenhinol wedyn). Roedd rhai'n aelodau o'r catrodau Cymreig, yn cynnwys Cyffinwyr De Cymru, y Gwarchodlu Cymreig a'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig (oedd â mwy o fataliynau nag unrhyw gatrawd arall yn y Rhyfel Byd Cyntaf.) Gwasanaethodd bataliynau o Gyffinwyr De Cymru ym mhob un o brif ardaloedd y rhyfel, yn cynnwys Gallipoli, y Somme, Palesteina a'r holl frwydrau mawr ar Ffrynt y Gorllewin.

Recriwtiwyd eraill i fataliynau a godwyd yn lleol fel 2il/7fed Bataliwn Meirionnydd a Sir Drefaldwyn a ffurfiwyd yn y Drenewydd ym Medi 1914 a 25ain Bataliwn Iwmyn Maldwyn a Cheffylau Cymru a ffurfiwyd yn yr Aifft yn 1917 o Iwmyn Maldwyn a Marchoglu Ceffylau Cymru.

*Cliciwch yma i gael rhagor o wybodaeth am gatrodau Cymru*

*Y dudalen nesaf*




Sut i ddefnyddio'r pecyn hwn
Coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf
Y Rhyfel Byd Cyntaf
Cofebion rhyfel
Ymchwilio i gofebion rhyfel
Cofnodi cofebion rhyfel a gofalu amdanynt
Gweithgareddau
Adnoddau

## Effaith y rhyfel ar gymunedau a'r bobl a ddaeth trwyddi







23rd. Battalion on Front line and roads.
24th. Battalion on Front line and roads.
Tents issued. Battalion on front line and roads. Commencement of 2nd. Line.
25th. CHRISTMAS DAY. Half Holiday.
26th. A and D Companies temporarily attached to 7th. Bn. S.W.B. and moved to Camp immediately behind HEDAN HILL. B and C Companies on roads.
B and C Companies on roads remaining Companies on front line under

Roedd effeithiau'r rhyfel i'w teimlo ym mhob rhan o'r gymdeithas am amser maith. Bu raid i bobl a fu'n ymladd yn y rhyfel ac a ddaeth trwyddi fyw gyda'u hatgofion dychrynllyd am weddill eu hoes. Roedd rhai mewn trawma dwfn ('shell shock') a fyddai'n cael ei gydnabod erbyn heddiw fel anhwylder straen wedi trawma (PTSD) ond a ystyrid ar y pryd yn dystiolaeth o lwfrdra.






Roedd llawer o'r milwyr a ddychwelai wedi dioddef anafiadau cas ac wedi'u hanffurfio'n ddifrifol ac effeithiodd hyn yn arw arnyn nhw a'u teuluoedd. Roedd llawer ohonynt yn cael eu cadw draw o lefydd cyhoeddus rhag ofn iddynt ddychryn pobl, ac roeddent yn cael trafferth mawr dod o hyd i waith ac ennill cyflog i gynnal eu teuluoedd ac i ddod yn rhan o'r gymdeithas eto.




Roedd llawer o'r dynion a ddychwelai adref yn cael trafferth addasu i fywyd bob dydd ac i'w teuluoedd. Roedd rhai wedi colli pedair blynedd o ddatblygiad eu plant ac roedd y plant a'u tad yn ddieithriaid i'w gilydd. Roedd llawer o ddynion yn filain iawn ar ôl treulio amser mewn sefyllfaoedd mor dreisgar.




Cafodd y Rhyfel Byd Cyntaf effaith enfawr ar ran menywod mewn cymdeithas. Gwnaeth menywod gyfraniadau pwysig i'r rhyfel fel merched y tir, gweithwyr coedwigoedd a gweithwyr diwydiannol i gymryd lle'r dynion a aeth i'r rhyfel. Yn sydyn, roedd swyddi mwy amrywiol ar gael i ferched; llawer o'r rheiny'n swyddi â chyflogau gwell a gwell amodau gwaith na'r swyddi gweini traddodiadol. Gorfodwyd undebau llafur i dderbyn merched yn aelodau ac i roi'r gefnogaeth angenrheidiol iddynt fel enillwyr cyflog mewn teuluoedd. Gallai merched gymdeithasu mwy hefyd. Daeth yn dderbyniol i ferched fynd i mewn i dafarnau ar eu pen eu hunain, ac i wisgo trowsus fel y dyngarîs a wisgent wrth weithio.

Y dudalen nesaf



Sut i ddefnyddio'r pecyn hwn | Coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf | Y Rhyfel Byd Cyntaf | Cofebion rhyfel | Ymchwilio i gofebion rhyfel | Cofnodi cofebion rhyfel a gofalu amdanynt | Gweithgareddau | Adnoddau

# ③ Cofebion Rhyfel




Yn yr adran hon, cewch wybodaeth am:

- Beth yw cofeb ryfel?
- Hanes cofebion rhyfel
- Mathau o gofebion rhyfel
- Symboliaeth ar gofebion rhyfel
- Epitaffau
- Pwy sy'n cael eu coffáu ar gofebion?
- Sut y cofnodir yr enwau






## Beth yw cofeb ryfel?

Mae Archif y Cofebion Rhyfel yn amcangyfrif bod dros 100,000 o gofebion rhyfel yn y Deyrnas Unedig. Cafodd dwy ran o dair o'r rhain eu creu yn dilyn y Rhyfel Byd Cyntaf. Amcangyfrifir bod 300 o'r 100,000 i'w gweld ym Mhowys.

Yn ôl diffiniad Archif y Cofebion Rhyfel, gall cofeb ryfel fod yn unrhyw beth sy'n cael ei godi neu ei gysegru i gofio'r rhai a gollwyd o ganlyniad i ryfel neu wrthdaro neu a fu farw o ganlyniad i ddamwain neu glefyd tra oeddent yn gwasanaethu gyda'r lluoedd.






Gellir codi cofebau i unigolion, grwpiau o bobl, sifiliaid a hyd yn oed anifeiliaid - mae cofeb i Anifeiliaid mewn Rhyfel yn Park Lane, Llundain).




## Hanes cofebion rhyfel



Y gofeb ryfel gynharaf i gael ei chofnodi yn y Deyrnas Unedig yw carreg goffa Bictaidd i frwydr Dunnichen yn Aberlemno ger Forfar yn yr Alban. Mae'n dyddio o'r seithfed ganrif OC.

Mae cofebion diweddarach yn tueddu i ddathlu buddugoliaethau neu goffáu unigolion arwyddocaol. Nid oeddent yn enwi'r milwyr cyffredin a fu farw. Newidiodd hyn ar ôl y Rhyfel yn erbyn y Boeriaid (1899-1902) pan ddechreuodd cymunedau goffáu'r rhai a gollodd eu bywydau trwy godi cofebion a oedd yn aml yn rhestru enwau pawb a laddwyd.



Daeth y Rhyfel Byd Cyntaf â throbwynt o safbwynt creu cofebion rhyfel. Oherwydd y nifer anferthol o farwolaethau, nid oedd llywodraeth Prydain yn caniatáu dychwelyd cyrff i Brydain. Roedd hyn yn gadael y rhai oedd mewn galar gartref heb fedd na chanolbwynt i'w galar

www.Powys.gov.uk

Y dudalen nesaf

Sut i ddefnyddio'r pecyn hwn | Coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf | Y Rhyfel Byd Cyntaf | Cofebion rhyfel | Ymchwilio i gofebion rhyfel | Cofnodi cofebion rhyfel a gofalu amdanynt | Gweithgareddau | Adnoddau



O ganlyniad, ffurfiwyd pwyllgorau cofebion rhyfel i arwain ymgyrchoedd i greu cofebion i anrhydeddu'r cof am bobl leol a laddwyd yn ystod y gwrthdaro. Yn aml, penderfynwyd ar natur y gofeb ryfel mewn cyfarfod cyhoeddus a byddai'r penderfyniad terfynol yn adlewyrchu dymuniadau'r gymuned leol. Oherwydd diffyg rheolau a chyfarwyddiadau gan y llywodraeth, cafodd gwahanol fathau o gofebau rhyfel eu creu.

Mae gan y rhan fwyaf o gymunedau o leiaf un, ac weithiau fwy nag un, gofeb ryfel. Dim ond pum deg dau o 'bentrefi diolchgar' a gofnodwyd yn y Deyrnas Unedig. Pentrefi oedd y rhain lle dychwelodd pawb a aeth i'r rhyfel.



Roedd 'cysegrfeydd' mewn sawl tref ym Mhowys a oedd yn rhestru enwau'r dynion a oedd yn gwasanaethu ac yna enwau'r rhai a laddwyd wrth i'r rhyfel ddatblygu. Datblygodd rhai o'r rhain i fod yn gofebion parhaol. Roedd 'cysegrfeydd' yn y Gelli Gandryll, Aberhonddu, y Clas-ar-Wy a Llan-gors.





## Mathau o gofebion rhyfel

Gan y gall unrhyw fath o beth fod yn gofeb ryfel, fe'u ceir mewn amryw o wahanol siapiau, meintiau, dyluniadau a defnyddiau. Mae llawer ohonynt yn wahanol iawn i'r ddelwedd draddodiadol, gyfarwydd o groes ar ben colofn neu blinth. Y syniad pwysicaf oedd creu rhywbeth fyddai'n para er mwyn cadw'r cof am y meirw'n fyw, ac mae'r dyluniad a ddewiswyd gan gymuned yn cynnig cip inni ar eu teimladau a'u hymateb.

Gwelir isod restr gyffredinol o wahanol fathau o gofebau, gydag enghreifftiau o Bowys.

*Gwelir rhestr fwy cynhwysfawr o fathau gwahanol o gofebau yn y Deyrnas Unedig ar wefan Archifau Cofebion Rhyfel, www.warmemorials.org*



**Croesau**

Gwelir y rhain mewn sawl gwahanol arddull yn cynnwys croes ar ffurf olwyn yn Nhre'r-llai; y groes Ladin yng Nghleirwy (gyda chrog) neu groes y farchnad yn y Bwlch.



www.Powys.gov.uk

Y dudalen nesaf


Sut i ddefnyddio'r pecyn hwn | Cofiáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf | Y Rhyfel Byd Cyntaf | Cofebion rhyfel | Ymchwilio i gofebion rhyfel | Cofnodi cofebion rhyfel a gofalu amdanynt | Gweithgareddau | Adnoddau



## Cerfluniau o bobl

Gan amlaf, mae'r rhain yn cynrychioli aelodau'r lluoedd a naill ai'n ffurfio'r gofeb gyfan, fel yn Llandrindod a Maesyfed, neu'n ffurfio rhan o gofeb fwy fel yn Llanfair-ym-Muallt a Rhaeadr Gwy.






## Rhestrau gwroniaid

Yn aml, mae'r rhestrau gwroniaid (rolls of honour) yn rhai syml. Gosodwyd rhai mewn eglwysi fel Llanfaredd a Glascwm, neuaddau fel Neuadd Les y Glowyr, Coelbren ac ysgolion fel Ysgol Maesydderwen, Ystradgynlais.




## Senotaff

Daw'r gair 'senotaff' o'r geiriau Groeg am 'fedd gwag'. Yr enghraifft enwocaf yw'r un ddyluniwyd gan Edwin Lutyens yn Whitehall, Llundain. Mae enghreifftiau llai o faint i'w gweld yn Nhrefyclo a Llanandras.





## Byrddau, placiau a llechi

Ceir placiau o wahanol ddeunyddiau mewn llefydd fel neuaddau, ysgolion, capeli ac eglwysi. Gall plac fod yn gofeb breifat i filwr unigol, fel yr un i John Davies yn Eglwys Sant Mihangel, Llanfihangel Helygain.



## Obelisg

Cofeb dal, gul, sy'n mynd yn bigfain yw obelisg – fel yr un yn Nhal-y-bont (Buttington) a Ffordun.

## Colofn

Mae enghraifft drawiadol o gofeb ar ffurf colofn glasurol yn sefyll ar ben y bryn yn edrych i lawr dros Drefaldwyn. Mae colofn symlach i'w gweld yn Llanfair Caereinion ac un arall ag wrn ar ei phen yn Hirnant.









www.Powys.gov.uk

Y dudalen nesaf

Sut i ddefnyddio'r pecyn hwn
Coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf
Y Rhyfel Byd Cyntaf
Cofebion rhyfel
Ymchwilio i gofebion rhyfel
Cofnodi cofebion rhyfel a gofalu amdanynt
Gweithgareddau
Adnoddau

## Cofebion defnyddiol

Mae cofebion wedi'u llunio at bob math o wahanol ddibenion, fel cafn ceffylau yn Norton, ffynnon yng Nghwm-twrch, Ysbytai Coffa yn Aberhonddu a Llandrindod, a thŵr cloc yn Rhaeadr Gwy.



## Ffitiadau eglwysi

Fel rheol, mae'r rhain yn rhan o adeiladwaith neu addurnwaith yr eglwys. Yn eu plith, mae'r pulpud yng Nghapel Coelbren, ffenestri coffa gan Christopher Whall yn Eglwys yr Holl Saint, y Clas-ar-wy a phorth eglwys Aberriw.





## Troffi

Yn Llandeilo Graban, rhoddwyd gwn maes ysgafn Almaenig mewn sylfaen goncrit ar ben y bryn i gofio'r rhai a fu farw yn y Rhyfel Byd Cyntaf.



# Symboliaeth ar gofebion rhyfel



## Croes aberth

Cynlluniwyd y math hwn o gofeb gan y pensaer Reginald Blomfield ar gyfer Comisiwn Beddau Rhyfel yr Ymerodraeth i goffâu'r meirwon a gladdwyd mewn mynwentydd rhyfel dramor. Fel rheol, mae'n groes Ladin galchfaen â phedwar pigyn, yn sefyll ar ei phen ei hunan, ar waelod wythochrog, gyda chleddyf mawr efydd, â'i lafn am i lawr, wedi'i blannu yn wyneb y groes. Mae'r groes yn cynrychioli ffydd y rhan fwyaf o'r meirw ac mae'r cleddyf yn cynrychioli hunanaberth y milwyr. Mae cofebion wedi'u hysbrydoli gan y cynllun hwn yn Nhre'r-llai ac yn Llangunllo.




## Torch

Efallai mai dyma'r math mwyaf cyffredin o gofeb. Fe'i defnyddir fel symbol traddodiadol o goffáu, parhad bywyd neu fuddugoliaeth, ar ffurf torch o ddail llawryf.  Fe welwch enghreifftiau yn Nhrefyclo, Llanandras a Thalgarth a thorch wedi'i chyfuno â chroes aberth yn Ngharno ac â chleddyf yn y Drenewydd.




## Arfau o chwith

Yn aml, mae cerfluniau o filwyr yn cael eu portreadu â'u harfau (reifflau) o chwith fel symbol o barch ac er cof am eu cydfilwyr a fu farw. Mae enghreifftiau i'w gweld ym Maesyfed a Llandrindod.

Y dudalen nesaf




Sut i ddefnyddio'r pecyn hwn
Coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf
Y Rhyfel Byd Cyntaf
Cofebion rhyfel
Ymchwilio i gofebion rhyfel
Cofnodi cofebion rhyfel a gofalu amdanynt
Gweithgareddau
Adnoddau




## Epitaffau

Yn aml, gwelir arysgrif ar ffurf cyflwyniad neu epitaff gydag enwau'r rhai sy'n cael eu coffáu. Ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf, cyflogwyd Rudyard Kipling gan Gomisiwn Beddau Rhyfel yr Ymerodraeth i fod yn gynghorydd llenyddol ar yr arysgrifau i'w defnyddio ar gofebion rhyfel. Roedd hwn yn ddewis braidd yn eironig gan fod Kipling yn un o'r rhai oedd yn gyfrifol am greu'r propaganda a lwyddodd i annog cynifer o ddynion i ymrestru yn y lle cyntaf!




Kipling a gyfansoddodd yr epitaff cryno a ddefnyddir yn aml: 'Their name liveth for evermore' a welir ar gofeb Llandrindod ac a addaswyd ar nifer o rai eraill.


Epitaff cyffredin arall yw'r un a dadogir i John Maxwell Edmonds, clasurwr o Sais, a luniodd gasgliad o ddwsin o epitaffau ar gyfer y Rhyfel Byd Cyntaf ym 1916:

*When you go home*
*Tell them of us and say*
*For your tomorrow*
*We gave our today*





Mae'r epitaff hwn i'w weld yn llawn ar gofeb Trefaldwyn a rhan ohono ar gofeb Trefyclo.

Ceir rhai epitaffau Lladin. Er enghraifft, 'Pro patria non timeo mori' (Er mwyn eich gwlad, nac ofnwch farwolaeth) ar restr y gwroniaid yn Llanfaredd.




Roedd epitaffau eraill yn ddyfyniadau a addaswyd o weithiau llenyddol enwog fel Pilgrim's Progress gan Bunyan yng Nghwm-bach a Maesyfed: 'So they passed over and all the trumpets sounded for them on the other side.'

A defnyddiwyd dyfyniadau o'r Beibl fel 'The sun went down while it was yet day' (Jeremeia 15.9) ar y gofeb yn Nhalgarth.




Cewch ragor o wybodaeth am gofebion rhyfel yng nghanllawiau Cadw, 'Gofalu am: Cofebion Rhyfel yng Nghymru':

Canllawiau Cadw, 'Gofalu am: Cofebion Rhyfel yng Nghymru'


www.learnaboutwarmemorials.org

Canllaw Historic Scotland i gofebion rhyfel

Y dudalen nesaf

## Pwy sy’n cael eu coffáu ar gofebion?

Codwyd y rhan fwyaf o gofebion rhyfel gan y gymuned leol ac nid gan y llywodraeth. Felly, ni chafodd yr enwau sydd ar y cofebion eu cymryd o gronfa ganolog ond eu dewis gan y pwyllgor a sefydlwyd i godi’r gofeb.




Casglwyd yr enwau trwy holi o-ddrws-i-ddrws, trwy daflenni, cyhoeddiadau yn y capeli a’r eglwysi, erthyglau papur newydd neu wrth i bobl sgwrsio. Fodd bynnag, nid yw’r rhestrau o’r rhai sy’n cael eu coffáu bob amser yn cynnwys pawb. Weithiau, roedd enwau heb eu cynnwys trwy gamgymeriad ac weithiau doedd y teuluoedd ddim yn dymuno eu cynnwys rhag ofn i fab neu ŵr, oedd ar goll, ddod i’r golwg wedi’r cyfan. Roedd yn well gan rai teuluoedd godi cofeb breifat i goffáu aelodau a fu farw.







I ychwanegu at y dryswch, roedd rhai teuluoedd wedi symud i ffwrdd. Er enghraifft, os oedd gwraig weddw’n gadael ardal, weithiau nid oedd enw ei gŵr yn ymddangos ar gofeb yr ardal honno ond, ambell waith, yr oedd ar y gofeb yn y pentref neu’r dref y symudodd iddi.



Gallai’r rhai a restrwyd ar gofeb fod wedi’u lladd wrth ymladd neu wedi marw o glefyd neu ddamwain. Roedd aelodau’r lluoedd arfog a ddaeth adref wedi’u clwyfo ac a fu farw cyn 31 Awst 1921 yn cael eu cyfrif yn golledion rhyfel a gellid cynnwys eu henwau ar gofeb.




Roedd rhai cofebion yn anrhydeddu pobl a fu’n ymladd ac na fu farw. Er enghraifft, mae’r gofeb yn eglwys Llansanffraid yn cynnwys enwau pump a anafwyd yn yr ymladd a dau a fu’n garcharorion rhyfel. Yn yr un modd, mae plac yn Eglwys Dewi Sant, Rhiwlen yn cofnodi dau a fu farw a phedwar a fu yn y rhyfel ond na laddwyd.

Y dudalen nesaf



## Sut y cofnodwyd yr enwau

Mae'r ffordd o gyflwyno'r enwau unigol yn amrywio o gofeb i gofeb. Gallant ymddangos mewn sawl ffordd:

- Yn nhrefn yr wyddor, gyda'r cyfenw a'r enw cyntaf neu'r llythrennau blaen, fel sydd ar gofebion Machynlleth a Rhaeadr Gwy - roedd hyn yn digwydd yn aml, gan gyfleu bod pawb 'yn gydradd mewn marwolaeth.'
- Yn nhrefn yr wyddor fel uchod, ond gyda'r rheng, y gatrawd a dyddiad y farwolaeth (y Bontnewydd ar Ŵy).
- Yn nhrefn eu rheng (Cleirwy).
- Yn nhrefn dyddiad eu marw.










Nid oedd rhai cofebion, fel un Tre'r-llai, yn cofnodi enwau, dim ond yn coffáu'r rhai a laddwyd yn y rhyfel.

Cafodd rhai enwau eu cynnwys ar fwy nag un gofeb. Er enghraifft, cafodd rhai eu cynnwys ar gofeb tref neu bentref ac ar gofeb neu restr gwroniaid arall a drefnwyd gan eu cymuned, eu hysgol, eu heglwys, eu cwmni neu eu clwb. Gall hyn achosi dryswch wrth ymchwilio i enwau ac mae'n werth gwneud yn siŵr bod yr enwau, y cyfeiriadau, a'r dyddiadau geni a marw yn cyfateb.



Sut bynnag yr oedd cymuned yn dewis cofnodi'r enwau, mae'n bwysig cofio mai cofeb ryfel yw'r unig gofnod a geir o rai pobl. Felly, mae pob cofeb yn gofnod unigryw o'r gorffennol ac o etifeddiaeth cymuned.

# Ymchwilio i gofebion rhyfel

Gyda thipyn o waith caled ac ymchwil manwl, gall cofeb ryfel roi cipolwg hynod ddiddorol ar orffennol cymuned. Yn ogystal â dysgu pwy oedd y bobl hyn, cewch wybod gyda phwy y buont yn ymladd ac i ble yr aethant. Os ydych yn lwcus, gallwch hyd yn oed ddysgu sut yr oedd rhywun yn edrych. Gallech ddefnyddio'ch gwaith ymchwil i fod yn sylfaen ar gyfer darn o ddrama, ysgrifennu creadigol neu ffilm fer neu, o leiaf, ddod i ddeall arwyddocâd y gofeb yn awr ac yn y gorffennol.

Bydd dysgu am gofeb ryfel yn helpu i ddatblygu sgiliau ymchwilio ac i weithio mewn ffordd draws-gwricwlaidd gyda phynciau fel mathemateg, Saesneg, TGCh, er mwyn cyflwyno'r data.

Os nad oes gennych amser i wneud gwaith ymchwil trylwyr, gellir defnyddio cofeb i gyflwyno'r syniad o dreftadaeth a llinach, i ysbrydoli gwaith dylunio neu i ysgogi gwaith ysgrifennu creadigol neu farddoniaeth. Gallai'r gofeb hyd yn oed fod yn hwb ar gyfer prosiect cymunedol y gallai pobl ifanc gymryd rhan ynddo.

Mae'r adran hon yn edrych ar ddulliau o ymchwilio i'ch cofeb ryfel leol. Gall y broses gymryd llawer o amser ac, o'r dechrau, bydd angen i chi benderfynu ar ba lefel y byddwch yn ymchwilio. Yn CA2, gall fod yn ddigon gwneud gwaith ymchwil sylfaenol gan ddefnyddio gwefan Comisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad. Yn CA 3 a 4, gellir ehangu gwaith ymchwil y disgyblion i gynnwys gwefannau a chronfeydd data eraill.

Yn yr adran hon, cewch wybodaeth am:

- Yr hyn y gellir ei ddysgu o gofeb ryfel.
- Sut i ymchwilio i gefndir eich cofeb ryfel.
- Sut i ymchwilio i'r enwau ar gofeb ryfel.

*Efallai y bydd oedolion sy'n dysgu yn dymuno mynd i'r Pecyn Cymunedol yma i gael gwybod mwy am sut i ymchwilio i gofebau rhyfel.*

Ar ôl i chi ymchwilio i'ch cofeb chi, gofynnir i chi gysylltu â Thîm Prosiect Cofebion Rhyfel Cyngor Sir Powys fel y gallwn ni gadw cofnod o'r wybodaeth. Gallwch wneud hyn mewn sawl ffordd:

- Gallwch lwytho'r manylion ar wefan y prosiect:

*www.powys.gov.uk/cofebionrhyfel*

- Gallwch ebostio copi i'r tîm: warmemorials@powys.gov.uk
- Gallwch anfon copi trwy'r post at:
  Swyddog Prosiect Cofebion Rhyfel Powys,
  Neuadd y Sir, Llandrindod, Powys, LD1 5LG
- Gallwch ffonio Swyddog Prosiect Cofebion Rhyfel Powys i roi'r wybodaeth, ar: 0845 6027030 / 01597 827460

Y dudalen nesaf



Sut i ddefnyddio'r pecyn hwn
Coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf
Y Rhyfel Byd Cyntaf
Cofebion rhyfel
Ymchwilio i gofebion rhyfel
Cofnodi cofebion rhyfel a gofalu amdanynt
Gweithgareddau
Adnoddau

## Beth y gallwch ei ddysgu o gofeb ryfel

Hyd yn oed cyn i chi astudio'r enwau ar eich cofeb ryfel, gallwch ddysgu llawer o'r adeiladwaith ei hunan. Er enghraifft:

- Pryd y cafodd ei chomisiynu a'i chodi?
- Pwy ddyluniodd y gofeb a'i hadeiladu? Ai cwmni lleol yn defnyddio'u dyluniad eu hunain neu a gymerwyd y dyluniad o gatalog? A oedd y defnyddiau'n rhai lleol?
- A yw'r lleoliad yn arwyddocaol i'r gymuned? Ai dyma lle'r oedd y dynion yn ymrestru i fynd i'r rhyfel, efallai, neu a oeddent yn arfer cyfarfod yma i gymdeithasu?
- Pwy dalodd am ei dylunio a'i chodi?
- Pwy oedd yn y gwasanaeth cysegru a phwy oedd yn ei arwain?





## Sut i ymchwilio i gefndir eich cofeb ryfel

Mae llawer o ffynonellau gwybodaeth hwylus ar gael i'ch helpu i ymchwilio i gefndir eich cofeb.



**Archif Cofebion Rhyfel yr Imperial War Museum**
Er nad yw'r manylion llawn ym mhob cofnod, mae'n werth mynd i'r wefan hon yn gyntaf gan ei bod yn rhestru cofebion ledled y Deyrnas Unedig:

*www.ukniwm.org.uk*

**Papurau newydd lleol**
Roedd codi a chysegru cofeb ryfel yn haeddu sylw yn yr ardal. Roedd y wasg leol yn aml yn sôn yn fanwl am y peth ac weithiau roedd ffotograffau i fynd gyda'r stori. Mae archif papurau newydd Cymru yn y Llyfrgell Genedlaethol a gellir ei chwilio ar lein:

*papuraunewyddcymru.llgc.org.uk*

Ar hyn o bryd, mae'r archif yn dod i ben ym 1919 a, gan fod llawer o gofebau rhyfel wedi'u cysegru tua dechrau'r 1920au, gall fod angen i chi chwilio archifau papurau newydd mewn llyfrgelloedd cyhoeddus.

*Y dudalen nesaf*



Sut i ddefnyddio'r pecyn hwn | Coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf | Y Rhyfel Byd Cyntaf | Cofebion rhyfel | Ymchwilio i gofebion rhyfel | Cofnodi cofebion rhyfel a gofalu amdanynt | Gweithgareddau | Adnoddau

**Amgueddfa Leol**

Gall fod hen luniau o'ch cofeb mewn amgueddfa leol, a hyd yn oed luniau o'r seremoni gysegru. Efallai nad yw'r rhain bob amser yn y golwg, felly mae'n werth holi cyn ymweld.

*Cliciwch yma i gael rhestr o amgueddfeydd Powys*

**Cymdeithas Hanes Lleol**

Efallai y byddai cysylltu â grŵp lleol yn ffordd hawdd o gael gwybod mwy am eich cofeb. Gan amlaf, mae haneswyr lleol yn awyddus i rannu eu gwybodaeth ac efallai y byddent yn hoffi'r cyfle i ymweld ag ysgol i sôn am y gofeb.









## Sut i ymchwilio i'r enwau ar eich cofeb ryfel

Gall hyn gymryd llawer o amser. Byddai'n syniad da dangos canlyniadau gwaith ymchwil a wnaed eisoes i'r disgyblion er mwyn iddynt gael gweld sut y mae gwaith ditectif hanesyddol wedi dod â'r enwau'n fyw cyn iddyn nhw ddechrau ar eu gwaith chwilio nhw'u hunain. Ar ôl cyflwyno disgyblion hŷn i'r broses ymchwil, gellir gadael iddynt ymchwilio drostynt eu hunain gan ddewis cyfenw neilltuol i fod yn ganolbwynt i'w hymchwil.

Isod, ceir amlinelliad o'r broses o ymchwilio i enwau, ynghyd ag astudiaethau achos ond, yn gyntaf, gair o rybudd!

Mae angen bod yn ofalus. Dydi popeth ddim fel y mae'n ymddangos. Weithiau, gall yr enwau ar gofeb ryfel fod yn anghywir neu'n gamarweiniol. Nid yw hyn yn fwriadol ond gall ddigwydd o ganlyniad i un o'r isod:

- Camgymeriadau wrth gopïo enw o restr wreiddiol i'r gofeb.
- Cynnwys pobl oedd wedi'u rhestru fel rhai a fu farw ond y gwelwyd wedyn eu bod yn dal yn fyw.
- Peidio â chynnwys enwau gan fod teuluoedd wedi symud i ffwrdd.
- Cynnwys pobl o'r tu allan, nad oedd yn byw yn y gymuned.

Ym Mhowys, mae rhai cyfenwau cyffredin yn digwydd sawl gwaith ar yr un gofeb. Mae'n well dewis ymchwilio i enw llai cyffredin i ddechrau (gweler Chwiliad B ar y dudalen nesaf).

*Y dudalen nesaf*

## Dechrau arni – y broses ymchwilio

Dyma arweiniad cam-wrth-gam i'r broses o ymchwilio i enwau.

### Cam 1: Enwau

- Rhestrwch yr enwau sydd ar eich cofeb.
- Rhestrwch yr holl fanylion sydd ar gael fel cyfenw, enw(au) cyntaf, rheng, catrawd a rhif yn y gatrawd.
- Gwnewch gronfa ddata neu daenlen (spreadsheet) o'r holl enwau a manylion.

### Cam 2: Comisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad (CWGC)

Dyma'r man cychwyn gorau ar gyfer ymchwilio i enwau. Mae'r wefan yn cynnwys rhestr o'r rhai a fu farw a gallwch chwilio gan ddefnyddio enw person. Isod, mae dwy enghraifft o chwiliadau – un lle mae llawer o wybodaeth ar gael ac un lle nad oes dim ond yr enw ar gael.

Ar ôl i chi gael canlyniadau'ch chwiliad ar wefan CWGC, cliciwch ar enw'r person perthnasol i gael ei fanylion a thystysgrif goffa. Neu gallwch glicio'r botwm 'Export Data' a fydd yn symud canlyniadau'ch chwiliad, ac unrhyw wybodaeth ychwanegol, i daenlen Excel.

Chwiliad A

Cofeb: Eglwys Dewi Sant, Rhiwlen; tabled carreg.

Gwybodaeth: Driver W.T. Jukes R.F.A died Italy Oct.17th 1918 Aged 21 years.

Canlyniad

Enw: William Thomas Jukes
Rheng: Gyrrwr
Rhif Gwasanaeth: 851294
Dyddiad marw: 17/10/1918
Oed: 22
Catrawd/Gwasanaeth: Royal Field Artillery
Uned: Magnelfa "D", Brigâd 241
Gwlad: Yr Eidal
Cyfeirnod y Bedd/Gofeb: Plot 7. Rhes A. Bedd 1.
Mynwent: Yr estyniad i fynwent gymunedol Montecchio Precalcino.
Gwybodaeth ychwanegol: gŵr Evelyn Jukes o Llanelwedd Villa, Llanfair-ym-Muallt, Sir Frycheiniog.

*Sylwch: Y 'gyrrwr' oedd yn gyfrifol am arwain neu 'yrru' y ceffylau oedd yn tynnu'r gynnau, nid gyrru cerbyd.*

Chwiliad B

Cofeb: Machynlleth

Gwybodaeth: Thomas Cudworth

Canlyniad

Enw: Thomas Cudworth
Rheng: Preifat
Rhif Gwasanaeth: 61305
Dyddiad marw: 01/09/1918
Oed: [heb ei nodi]
Catrawd/Gwasanaeth: Ffiwsilwyr Brenhinol Cymru
Uned: Bataliwn 17
Gwlad: Ffrainc
Cyfeirnod y Bedd/Gofeb: Panel 6
Enw'r Fynwent/Gofeb: Cofeb Vis-en-Artois.



www.Powys.gov.uk

Y dudalen nesaf

Sut i ddefnyddio'r pecyn hwn
Coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf
Y Rhyfel Byd Cyntaf
Cofebion rhyfel
Ymchwilio i gofebion rhyfel
Cofnodi cofebion rhyfel a gofalu amdanynt
Gweithgareddau
Adnoddau

**Cam 3: Cofnodion Milwrol**

Os hoffech wybod mwy am wasanaeth milwr yn ystod y rhyfel, gallwch chwilio cronfa ddata'r Cardiau Mynegai Medalau. Bydd cerdyn mynegai yn dweud wrthych am ba hyd y bu'n ymladd a pha fedalau yr enillodd.

Mae'r gronfa ddata hon ar gael trwy www.ancestry.co.uk wrth chwilio o dan 'military records'. Efallai y gwelwch gofnodion milwrol perthnasol eraill yma hefyd fel ei gerdyn listio a gwybodaeth filwrol arall. Mae pob llyfrgell gyhoeddus yng Nghymru yn cynnig mynediad am ddim i wefan Ancestry.

*www.ancestry.co.uk*

**Cam 4: Cyhoeddiad am ei farwolaeth**

Gallwch ddod o hyd i gyhoeddiadau am farwolaeth aelodau'r lluoedd arfog trwy chwilio yn archif Papurau Newydd Cymru Arlein. Po uchaf yw eu rheng, mwyaf o wybodaeth a roddir.

**Cam 5: Manylion Personol**


Os hoffech wybod rhagor am gefndir personol y milwr e.e. lle'r oedd yn byw, lle cafodd ei eni, pwy oedd ei rieni neu ei wraig, byddai'n werth chwilio trwy ffurflenni cyfrifiad 1901 a 1911.

Mae ffurflenni'r ddau gyfrifiad i'w cael trwy wefan Ancestry wedi'u trawsgrifio sy'n golygu eu bod yn haws i'w darllen.

Gallwch chwilio am enedigaethau a phriodasau ar wefan Find My Past. Gallwch ei chwilio am ddim trwy'r Archifdy Sirol yn Llandrindod neu trwy lyfrgelloedd cyhoeddus. Mae'r Archifdy Sirol yn cadw cofnodion ysgolion hefyd ac mae modd eu gweld trwy drefniant.

*www.findmypast.co.uk*

Y dudalen nesaf



2

Civil Parish: Llanfihangel Talyllyn entire — Ecclesiastical Parish: Saint Michael entire — Borough or Urban District: —

Ward of Borough or Urban District: — — Rural District: Brecknock Part of — Parliamentary Borough or Division: County of Brecknock

| No. of Schedule. 1. | Address. 2. | Kind of Building. (For Blocks of Flats and Model Dwellings the Numbers of separate Flats or Tenements must be stated.) 3. | Name of Occupier. 4. | Dwellings or Tenements: Inhabited. 5. | Uninhabited. 6. | Building. 7. | Buildings not used as dwellings. 8. | Population: Males. 9. | Females. 10. | Persons. 11. |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 20 | Bridge House | Private House | Mrs Hobby | 1 | | | | 1 | 1 | 2 |
| 21 | [illegible] | , | Mr Williams | 1 | | | | 3 | 3 | 6 |
| | Pantey | , | | | 1 | | | | | |
| 22 | Cartref | , | " Parry | 1 | | | | 2 | 5 | 7 |
| 23 | 1 Bank Cottages | , | " Lloyd | 1 | | | | 1 | 2 | 3 |
| 24 | 1 | , | " Roberts (Lodger) | 1 | | | | 1 | | 1 |
| 25 | 2 | , | Mrs Morgan | 1 | | | | | 1 | 1 |
| 26 | 2 | , | Mr Bury Lodger | 1 | | | | 1 | | 1 |
| 27 | 3 | , | Mrs Powell | 1 | | | | 2 | 2 | 4 |
| 28 | Pistill | Farm | Mr Morris | 1 | | | | 3 | 2 | 5 |
| 29 | The Rectory | Private | Rev D. C. Richard | 1 | | | | 3 | 2 | 5 |
| | Carpenters Shop | | Mr Hobby | | | | 1 | | | |
| 30 | 1 Walnut Cottage | Private House | Mrs Ball | 1 | | | | 1 | 1 | 2 |
| 31 | 2 | , | Mr Davies | 1 | | | | 2 | 3 | 5 |
| 32 | Royal Oak Inn | Public House | Mr Williams | 1 | | | | 1 | 4 | 5 |
| 33 | Tycanol | Farm | Jones | 1 | | | | 3 | 1 | 4 |
| 34 | Pendypentre | , | Griffiths | 1 | | | | 6 | 3 | 9 |
| 35 | 1 [illegible] Villas | Private House | Phillips | 1 | | | | 3 | 2 | 5 |
| | 2 | , | | | 1 | | | | | |
| 36 | 1 Griffin Terrace | , | Price | 1 | | | | 2 | 2 | 4 |
| | 2 | , | | | 1 | | | | | |
| 37 | 3 | , | Gilchrist | 1 | | | | 2 | 2 | 4 |
| 38 | 4 | , | Mrs Powell | 1 | | | | 1 | 2 | 3 |
| 39 | 1 Maple Villas | , | Mr Breeden | 1 | | | | 2 | 1 | 3 |
| 40 | 2 | , | Mrs Thomas | 1 | | | | | 2 | 2 |
| | | Total to be carried forward to Abstract | | 21 | 3 | | 1 | 40 | 41 | 81 |

www.Powys.gov.uk

Sut i ddefnyddio'r pecyn hwn
Coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf
Y Rhyfel Byd Cyntaf
Cofebion rhyfel
Ymchwilio i gofebion rhyfel
Cofnodi cofebion rhyfel a gofalu amdanynt
Gweithgareddau
Adnoddau

# 5 Cofnodi cofebion rhyfel a gofalu amdanynt

Gall cofebion rhyfel ddirywio dros amser o ganlyniad i hindreulio, trin a thrafod, y ddaear yn suddo, fandaliaeth a gwaith cadwraeth sâl. Mae'n bwysig gofalu am gofebion fel y gall yr oesoedd a ddêl werthfawrogi eu gwerth. Hefyd, mae gwaith cynnal a chadw rheolaidd yn helpu i arafu'r dirywiad ac i warchod eu harwyddocâd hanesyddol a'u hymddangosiad.

Gallwch ddewis cofnodi cofeb ddim ond fel gweithgaredd sylwadol (gweler Gweithgaredd 1 ac Adnoddau 1 ac 1a) neu gallech gyflwyno'ch sylwadau i Brosiect Cofebau Rhyfel Powys. Os ydych yn ystyried gwneud yr ail ohonynt, mae ffurflen gofnodi i'w gweld yn Adnodd 10.

Cliciwch yma i fynd i Adnodd 10

Bydd y nodiadau a ganlyn yn eich helpu gyda'r gwaith cofnodi.

## Cofnodi'ch cofeb

Ceisiwch gofnodi mor gywir ag y gallwch. Dylech wneud cofnod o holl nodweddion y gofeb a'i chyflwr ar y pryd. Dylai'r cofnod gynnwys:

- Ffotograffau i ddangos sut mae'r gofeb yn edrych nawr.
- Copi o'r arysgrif a'r enwau a restrir.
- Ei chyflwr, er enghraifft unrhyw dystiolaeth o erydu, suddo neu fandaliaeth.



## Monitro'ch cofeb

Ar ôl cofnodi'ch cofeb yn fanwl, dylid ei harchwilio unwaith y flwyddyn os oes modd. Gallai hyn fod yn rhan o ymweliad blynyddol gan grŵp o flwyddyn ysgol neilltuol a gallai'r data a gesglir bob blwyddyn ddod yn rhan o weithgaredd monitro parhaus. Yn ogystal, byddai ymweliad blynyddol yn creu ymdeimlad o gysylltiad â threftadaeth y gymuned.

Dyma restr o rai o'r pethau y dylech fod yn chwilio amdanynt:

Cyflwr

- A oes difrod ffisegol neu strwythurol?
- A oes arwyddion hindreuliad?
- A oes rhyw nodweddion ar goll?
- A oes angen ei glanhau?

Arysgrifau ac enwau

- Ydyn nhw'n ddarllenadwy?
- A oes llythrennau neu eiriau ar goll?
- A oes llythrennau neu eiriau wedi hindreulio'n ddrwg?

Diogelwch

- Unrhyw arwyddion o fandaliaeth?

Y dudalen nesaf

## Cynnal a chadw'ch cofeb a'i thrwsio

Dylid trefnu i arbenigwr sydd wedi'i hyfforddi'n iawn wneud pob gwaith cynnal a chadw a thrwsio ar eich cofeb ryfel. Bydd yr wybodaeth a gesglir o'ch arolwg cyflwr chi yn helpu â'r gwaith cynnal a chadw cyson y mae'n rhaid ei wneud.

I gael rhagor o fanylion am ofalu am henebion, ewch i:

*Gofalu am Gofebion Rhyfel yng Nghymru gan Cadw*

*Cofebion Rhyfel yng Nghymru: Canllawiau Technegol gan Cadw*

Mae grantiau ar gael gan Cadw ar gyfer trwsio cofebion rhyfel a gwneud gwaith cadwraeth arnynt. Gall y War Memorials Trust gynnig rhagor o arian trwy ei Gynllun Grantiau Bach ar ben y 70% sydd ar gael trwy gynllun Cadw.

Ceir rhagor o wybodaeth yn:

*www.cadw.cymru.gov.uk*

*www.warmemorials.org/grants/*

Mae arian ar gael gan Gyngor Sir Powys hefyd ar gyfer gwaith gwarchod a gwella ar gofebion rhyfel. Os hoffech fanylion, cysylltwch â Thîm y Prosiect Cofebion Rhyfel.



Ar ôl gorffen cofnodi, cadwch gopi ar eich cyfer chi ac anfon copi arall at Dîm Prosiect Cofebion Rhyfel Cyngor Sir Powys. Gallwch wneud hyn mewn sawl ffordd:

- Gallwch lwytho'r manylion ar wefan y prosiect:

  *www.powys.gov.uk/cofebionrhyfel*

- Gallwch ebostio copi i'r tîm: warmemorials@powys.gov.uk
- Gallwch anfon copi trwy'r post at:
  Swyddog Prosiect Cofebion Rhyfel Powys,
  Neuadd y Sir, Llandrindod, Powys, LD1 5LG
- Gallwch ffonio Swyddog Prosiect Cofebion Rhyfel Powys i roi'r wybodaeth, ar:
  0845 6027030 / 01597 827460

Y dudalen nesaf



Sut i ddefnyddio'r pecyn hwn
Coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf
Y Rhyfel Byd Cyntaf
Cofebion rhyfel
Ymchwilio i gofebion rhyfel
Cofnodi cofebion rhyfel a gofalu amdanynt
Gweithgareddau
Adnoddau

# 6 Gweithgareddau

Mae'r cysylltiadau rhwng y pecyn hwn a Strategaeth Llythrennedd a Rhifedd Llywodraeth Cymru a rhyngddo a'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn cael eu hamlinellu isod.

## Cysylltiadau â'r Strategaeth Llythrennedd a Rhifedd

Gall y gweithgareddau a gynigir yn y pecyn hwn helpu i gyflawni cydrannau'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol.

*Cewch wybod mwy am weithgareddau ar gyfer cymunedau yn y Pecyn Cymunedol yma*



**Llythrennedd**

Mae llythrennedd yn ymwneud â mwy na sgiliau gramadeg. Mae hefyd yn ymwneud â'r sgiliau sy'n angenrheidiol er mwyn deall yr iaith lafar a'r iaith ysgrifenedig, dehongli'r hyn a ysgrifennwyd a thynnu casgliadau o'r dystiolaeth. Gellir defnyddio rhai o'r gweithgareddau i gyflawni elfennau o'r llinynnau Llythrennedd:

**Llinyn 1 – Llafaredd ar draws y cwricwlwm**

Cyfleu syniadau, gwrando ar ymatebion a thrafod safbwyntiau: dyna rai sgiliau allweddol sy'n angenrheidiol wrth ymchwilio i gofeb ryfel, boed hynny wrth drafod ymatebion teimladol i'r gofeb neu drafod sut y dylid mynd ati i ofalu amdani.

**Llinyn 2 – Darllen ar draws y cwricwlwm**

Mae dwy brif elfen i'r llinyn darllen: canfod, dewis a defnyddio gwybodaeth, ac ymateb i'r hyn a ddarllenwyd. Gellir cyflawni'r ddwy elfen wrth ymchwilio i enwau ar gofeb ryfel.




**Llinyn 3 – Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm**

Mae dwy brif elfen i'r llinyn ysgrifennu: trefnu syniadau a gwybodaeth, ac ysgrifennu'n fanwl-gywir. Mae'n hollbwysig cael trefn dda wrth goladu data ymchwil ac mae'n rhaid cyfleu'r data yn gywir er mwyn i bobl ddeall yn iawn.

**Rhifedd**

Mae pedwar llinyn yn elfen rhifedd y strategaeth a gellir cyflawni pob un ohonynt trwy waith y disgyblion ar gofebion rhyfel.

**Llinyn 1 – Datblygu rhesymu rhifyddol**

Mae'r llinyn hwn yn nodi'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer datrys problemau go iawn, er enghraifft, mesur cofeb ryfel.

**Llinyn 2 – Defnyddio sgiliau rhif**

Y rhain yw'r sgiliau sylfaenol sy'n angenrheidiol er mwyn gweithio gyda rhifau. Gellir eu cymhwyso at dasgau sy'n rhan o brosiect ymchwilio i gofeb ryfel, yn enwedig wrth ymdrin â dyddiadau, oedran a nifer y bobl fu'n gwasanaethu.

Y dudalen nesaf

www.Powys.gov.uk

Sut i ddefnyddio'r pecyn hwn | Coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf | Y Rhyfel Byd Cyntaf | Cofebion rhyfel | Ymchwilio i gofebion rhyfel | Cofnodi cofebion rhyfel a gofalu amdanynt | Gweithgareddau | Adnoddau



**Llinyn 3 – Defnyddio sgiliau mesur**

Y prif beth y mae sgiliau mesur yn ei wneud yw adlewyrchu pwysigrwydd gwybod pa fesuriadau i'w defnyddio ym mha gyd-destun. Bydd creu model i raddfa o'ch cofeb ryfel yn helpu i ddatblygu sgiliau mesur hyd ac arwynebedd.

**Llinyn 4 – Defnyddio sgiliau data**

Mae'r llinyn hwn yn edrych ar y ffyrdd o ddefnyddio'r dulliau cywir, neu'r dulliau gorau, o drafod data, gan ganolbwyntio ar dair elfen: casglu a chofnodi data, cyflwyno a dadansoddi data, a dehongli'r canlyniadau. Bydd defnyddio cronfeydd data ar-lein i gasglu gwybodaeth am y bobl sy'n cael eu coffáu ar eich cofeb ryfel ac yna benderfynu sut orau i gyflwyno'r data hyn yn helpu i ddatblygu'r sgiliau.




## Cysylltiadau'r gweithgareddau â'r cwricwlwm

| Pwnc | Sgiliau Allweddol | Gweithgaredd |
|---|---|---|
| Saesneg CA2 | Adfer a choladu gwybodaeth a syniadau o ffynonellau amrywiol gan gynnwys deunyddiau mewn print a deunyddiau gweledol. | 2, 3 |
| | Datblygu eu sgiliau darllen trwy ddarllen darnau a thestunau cyflawn gyda thestun heriol sy'n ehangu persbectifau ac yn estyn sgiliau meddwl. | 4 |
| Saesneg CA3 | Adfer, coladu a syntheseiddio gwybodaeth a syniadau o ffynonellau amrywiol gan gynnwys deunyddiau mewn print, deunyddiau gweledol a TGCh. | 2, 3 |
| | Datblygu eu sgiliau darllen trwy ddarllen darnau a thestunau cyflawn sy'n estyn dealltwriaeth ddeallusol, moesol ac emosiynol y disgyblion. | 4 |
| Hanes CA2 | Defnyddio ystod o ffynonellau gan gynnwys arteffactau, adeiladau a safleoedd i ddatblygu ymholi hanesyddol. | 1, 2, 3 |
| | Cynnal ymchwiliadau i'r hanes o'u cwmpas ac i fywydau pobl ar wahanol amserau ac mewn gwahanol leoedd yn y gorffennol. | |

Y dudalen nesaf

www.Powys.gov.uk

| | | |
|---|---|---|
| Hanes CA3 | Defnyddio'n annibynnol ystod o ffynonellau hanesyddol yn eu cyd-destunau hanesyddol, gan gynnwys dogfennau, arteffactau, ffynonellau gweledol, adeiladau a safleoedd i ddatblygu ymholi hanesyddol.<br><br>Cynnal ymchwiliadau i faterion hanesyddol ar sawl graddfa, o'r lleol i'r rhyngwladol. | 1, 2, 3 |
| Daearyddiaeth CA2 | Defnyddio mapiau i ganfod a chyflwyno gwybodaeth leoliadol. | 1, 3 |
| Daearyddiaeth CA3 | Defnyddio mapiau, cynlluniau a delweddau o wahanol fathau a graddfeydd a TGCh i ddehongli a chyflwyno gwybodaeth leoliadol. | 1, 3 |
| Mathemateg CA2 CA3 | Mesur a gwneud modelau i raddfa. | 1 |
| Dylunio a Thechnoleg CA2 | Datblygu a chyfleu eu syniadau dylunio mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan ddefnyddio TGCh a modelau lle bo hynny'n briodol. | 1, 5 |
| Dylunio a Thechnoleg CA3 | Archwilio, datblygu a chyfleu syniadau dylunio mewn ystod o ffyrdd gan gynnwys anodiadau, lluniadau a gwaith cynllunio drwy gymorth cyfrifiadur, e.e. llyfrgelloedd clipluniau, adnoddau ar y rhyngrwyd, sganwyr, camerâu digidol. | 1, 5 |

| | | |
|---|---|---|
| TGCh CA2 | Canfod gwybodaeth o nifer o ffynonellau at ddiben penodol.<br><br>Cynhyrchu a defnyddio cronfeydd data i ofyn ac ateb cwestiynau.<br><br>Cyfleu a chyflwyno gwybodaeth mewn gwahanol ffyrdd, yn cynnwys testun, graffiau, lluniau a sain, i gefnogi eu gweithgareddau mewn nifer o gyd-destunau. | 2, 3 |
| TGCh CA3 | Canfod gwybodaeth berthnasol yn effeithlon o nifer o ffynonellau at ddiben penodol.<br><br>Creu a defnyddio cronfeydd data i ddadansoddi data ac i ddilyn llwybrau ymholi penodol. | 2, 3 |
| Celf a Dylunio CA2 | Dylai dysgwyr gael eu hysgogi a'u hysbrydoli, lle bo'n briodol, gan artistiaid eraill, crefftwyr a dylunwyr.<br><br>Casglu gwybodaeth i baratoi ar gyfer prosiect ar thema benodol. | 1, 5 |
| Celf a Dylunio CA3 | Profi llu o wahanol dechnegau a chyfryngau er mwyn gwireddu syniadau, mynegi teimladau a chyfleu ystyr. | 5 |

Y dudalen nesaf

www.Powys.gov.uk

Gweithgaredd 1

## Ymweld â chofeb ryfel

CA2 CA3

**Deilliannau Dysgu**

Ar ôl ymweld â chofeb ryfel leol, bydd y plant yn gallu:

- Deall arwyddocâd cofebau rhyfel.
- Adnabod nodweddion allweddol cofeb ryfel.
- Dod o hyd i'w cofeb nhw ar fap o'r ardal.
- Gwybod pwy sy'n cael eu coffáu ar eu cofeb ryfel.

**Cyn yr ymweliad**

- Soniwch yn fras am gefndir y Rhyfel Byd Cyntaf.

Cliciwch yma i gael hanes y Rhyfel Byd Cyntaf

- Cyflwynwch eirfa gysylltiedig fel 'coffáu', 'coffadwriaeth', 'cysegru'.
- Esboniwch nad oedd y cyrff wedi'u cludo yn ôl i Brydain ac felly mai coffáu yw bwriad y gofeb, nid nodi lle mae'r bedd.
- Edrychwch ar gofebau rhyfel o wahanol fathau. Trafodwch eu dyluniad a'r symboliaeth a ddefnyddir ynddynt gan ddefnyddio'r archif luniau.

Cliciwch yma i weld archif luniau, Adnodd 6

- Chwiliwch am y gofeb ryfel ar fap.
- Trafodwch sut y dylai'r dosbarth ymddwyn wrth ymweld â'r gofeb.

**Yn ystod yr ymweliad**

Dyma'ch cyfle i astudio'r gofeb ryfel yn ofalus a chofnodi cymaint o wybodaeth ag y gallwch gan ddefnyddio gwahanol gyfryngau. Bydd angen i chi sicrhau eich bod yn mynd i'r afael â'r pwyntiau isod ar y safle:

- Cadarnhau lleoliad y gofeb ryfel ar fap
- Nodi beth yw dyluniad y gofeb, o beth y gwnaed hi, unrhyw ddelweddau symbolaidd a ddefnyddiwyd ac a oes iddi bwrpas ymarferol.
- Holwch y disgyblion pam, yn eu barn nhw, y mae'r gofeb wedi'u gosod yn y fan hon.
- Edrychwch i weld faint o ryfeloedd a gaiff eu coffáu ar y gofeb.
- Cyfrifwch faint o enwau sydd wedi'u rhestru ar y gofeb a holwch a yw'r plant yn nabod rhai o'r cyfenwau. Ystyriwch pam y mae rhai cyfenwau'n digwydd fwy nag unwaith a holwch a oes perthnasau i'r rhai a enwir yn dal i fyw yn yr ardal.
- Pa arysgrifau eraill sydd ar y gofeb? A oes epitaff?
- Anogwch y disgyblion i ystyried eu hymateb i'r gofeb. Sut maent yn teimlo wrth sefyll o flaen y gofeb a beth yw eu barn am y dyluniad?
- Cofnodwch y gofeb mor fanwl ag y gallwch gan ddefnyddio mesuriadau*, ffotograffau, brasluniau, lluniadau agos, fideo, recordiadau sain, neu trwy lenwi'r daflen gofnodi yn Adnodd 1, neu Adnodd 1a ar gyfer CA3.

** Cofiwch barchu'r gofeb ryfel a dim ond cymryd mesuriadau os yw hynny'n ymarferol. Gallwch fesur yr uchder trwy ddefnyddio onglau os yw hynny'n ddiogel.*

Y dudalen nesaf

**Ar ôl yr ymweliad**

Casglwch ynghyd yr hyn a ddysgwyd ar y safle trwy drafod yr ymatebion i'r gofeb ryfel. Defnyddiwch yr wybodaeth a gasglwyd i:

- Creu lluniau â nodiadau (lluniadau, ffotograffau, collages) o'r gofeb gan dynnu sylw at y prif nodweddion.
- Gwneud model o'r gofeb gan ddefnyddio'r mesuriadau a gymerwyd ar yr ymweliad.

Gellir defnyddio'r gofeb i hybu llythrennedd os oes epitaff yn y dyluniad (gweler Gweithgaredd 4).

**Gweithgareddau estynedig**

Gan fod y disgyblion yn gyfarwydd â'u cofeb ryfel leol erbyn hyn, gallech ddewis un o'r gweithgareddau isod i ehangu eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth:

Gweithgaredd 2: Ymchwilio i gofeb ryfel
Gweithgaredd 3: Ymchwilio i'r enwau ar gofeb
Gweithgaredd 4: Epitaffau
Gweithgaredd 5: Dylunio cofeb ryfel

**Arolwg Cofebion Rhyfel Powys**

Efallai y dymunwch gyflwyno'r wybodaeth a gasglwyd ar eich ymweliad â'r safle i wefan cofebion rhyfel Cyngor Powys. Os felly, defnyddiwch y Ffurflen Gofnodi Cofeb Ryfel yn Adnodd 10 a chyflwyno'ch cyfraniad ar lein.

Cliciwch yma i fynd i Adnodd 10







Y dudalen nesaf

Gweithgaredd 2

## Ymchwilio i gofeb ryfel

CA2 CA3

**Deilliannau Dysgu**
Ar ôl y gweithgaredd hwn, bydd y disgyblion yn gallu:

- Defnyddio nifer o ffynonellau gwreiddiol ac eilaidd i wneud gwaith ymchwil.
- Tynnu gwybodaeth o ddeunyddiau yr ymchwiliwyd iddynt.
- Cyflwyno'u canfyddiadau gan ddefnyddio nifer o sgiliau llythrennedd.
- Deall sut y gall y gofeb ddweud rhywbeth wrthym am y gymuned leol.

**Cyflwyniad**
Mae'r gweithgaredd hwn yn canolbwyntio ar strwythur a lleoliad y gofeb ryfel ac, yn ddelfrydol, dylai ddilyn ymweliad â'r safle. Mae'r gwaith o ymchwilio i'r enwau ar eich cofeb wedi'i gynnwys yng Ngweithgaredd 3.

Dechreuwch trwy wneud crynodeb o'r ymweliad a beth ddysgodd y disgyblion am y gofeb gan ddefnyddio ffotograffau a dynnwyd ar y safle.

Trafodwch beth oedd i'w ddysgu am y gofeb ryfel fel:

- Pwy ddyluniodd hi?
- Pryd adeiladwyd hi?
- Pam y cafodd ei chodi yn y man lle mae?
- Pwy dalodd am ei dylunio a'i chodi?
- Pwy oedd yn y gwasanaeth cysegru a phwy oedd yn ei arwain?
- A oes hen ffotograffau neu gardiau post o'r gofeb?

Rhestrwch unrhyw wybodaeth sydd gennych eisoes, fel enw'r gwneuthurwr sydd i'w weld weithiau ar y gofeb. Yna gofynnwch i'r disgyblion feddwl o ble y gallent gael yr wybodaeth angenrheidiol a sut i'w chael.

**Gwneud y gwaith ymchwil**
Dechreuwch eich ymchwil gyda'r War Memorials Archive a Phapurau Newydd Cymru Arlein.

Er mwyn eich helpu i ddechrau, mae Adnodd 2 yn cynnig dwy eitem am gofeb yn Eglwys y Santes Fair, Llanfair-ym-Muallt. Eitem o'r War Memorials Archive yw Adnodd 2 ac mae Adnodd 2a yn drawsgrifiad o adroddiad o'r Brecon County Times, Neath Gazette and General Advertiser, 25 Rhagfyr 1919, a gymerwyd o Papurau Newydd Cymru Arlein.

*[Sylwch fod y gofeb ryfel ar ffurf croes yn y parc yn Church Street, Llanfair-ym-Muallt wedi'i chodi yn 1924, bedair blynedd ar ôl y plac coffa yn Eglwys y Santes Fair. Mae'n coffáu yr un dynion ag a gofir ar y plac ynghyd â'r rhai a fu farw yn yr Ail Ryfel Byd.]*

**Ymarferiad**
Defnyddiwch y ddau adroddiad fel paratoad ar gyfer gwaith ymchwil unigol neu grŵp. Darllenwch y ddau adroddiad gyda'r disgyblion ac yna gofynnwch iddynt ateb y cwestiynau isod gan ofalu eu bod yn nodi o ba adroddiad y daw'r ateb perthnasol.

Y dudalen nesaf

www.Powys.gov.uk

- O beth y gwnaed y gofeb?
- Beth yw maint y gofeb?
- Pwy dalodd am y gofeb?
- Pwy wnaeth y gofeb?
- Faint o enwau sydd ar y gofeb? A oes tystiolaeth bod enwau wedi'u hychwanegu wedyn?
- A oes arysgrif ar yr gofeb?
- Pwy fu yn y seremoni gysegru?
- Lle mae'r gofeb?

Trafodwch y gwahaniaeth rhwng y ddau adroddiad: pa un yw'r hawsaf i gael gwybodaeth ohono ac a oes rhyw wahaniaeth rhwng y ddau adroddiad?

**Dangos sut i chwilio**

Nesaf, dangoswch sut y daethoch o hyd i'r cofnodion.

War Memorials Archive *www.ukniwm.org.uk*

1. Cliciwch ar 'Search the Memorials'
2. Cliciwch ar 'Simple Search'
3. Rhowch 'Builth' yn y blwch Keyword a dewis 'First World War'
4. Dewiswch '7100 St Mary's Parishioners - WWI plaque'

Papurau Newydd Cymru Arlein:

*papuraunewyddcymru.llgc.org.uk*



1. Yn y blwch Chwilio am Erthygl, teipiwch 'Builth war memorial'.
2. Llithrwch y tab dyddiad o'r chwith i'r dde i ddangos 1919 yn unig.
3. Cliciwch 'Newyddion' i ganolbwyntio'ch chwiliad.
4. Cliciwch 'Chwilio'.
5. Cliciwch y cyfeiriad cyntaf i weld yr adroddiad. Mae'r gwreiddiol a thrawsgrifiad i'w gweld yno.

Pan fyddant yn gwneud eu gwaith ymchwil eu hunain, mae'n bwysig i'r disgyblion gadw log ymchwil gan gofnodi pa wefannau a chwiliwyd a pha wybodaeth a gafwyd.

**Estyniad**

Gall fod rhagor o wybodaeth ar gael yn eich amgueddfa leol neu trwy gymdeithas hanes lleol. Efallai y gallech drefnu i ymweld â'r amgueddfa leol. Cyn trefnu'r ymweliad, byddai'n well dweud wrth y staff yn union beth rydych yn chwilio amdano.
Efallai nad oes ganddynt ddim perthnasol neu, os oes, efallai ei fod mewn storfa, felly mae'n well holi'n gyntaf.

Fel arall, gallech gysylltu â hanesydd lleol a fyddai'n fodlon dod i'r ysgol a sôn am ei ymchwil i'r gofeb a'r gymuned.

**Cyflwyno'ch gwybodaeth**

Gellir cyflwyno'r wybodaeth a gasglwyd gan y disgyblion gan ddefnyddio nifer o wahanol sgiliau llythrennedd a TG.

Dyma rai awgrymiadau:

- Ysgrifennu adroddiad am y gofeb.
- Paratoi adroddiad fideo am y gofeb.
- Ysgrifennu adroddiad ymarferol o'r broses ymchwilio.
- Creu cyflwyniad PowerPoint yn dilyn y gwaith ymchwil cam wrth gam.
- Ysgrifennu adroddiad ar gyfer y papur newydd lleol/cylchlythyr y plwyf/cylchlythyr yr ysgol/gwefan.
- Ysgrifennu adroddiad o'r seremoni gysegru fel pe byddech yno.


Y dudalen nesaf

www.Powys.gov.uk

Gweithgaredd 3

## Ymchwilio i'r enwau ar gofeb ryfel

CA2 CA3




**Deilliannau Dysgu**

Ar ôl y gweithgaredd hwn, bydd y disgyblion yn gallu:

- Defnyddio nifer o adnoddau i wneud gwaith ymchwil.
- Tynnu gwybodaeth o ddeunyddiau yr ymchwiliwyd iddynt.
- Cyflwyno'u canfyddiadau mewn ffordd gydlynus gan ddefnyddio nifer o sgiliau llythrennedd.
- Deall y rhai sy'n cael eu coffáu yn well.
- Deall sut y mae ymchwilio i'r enwau'n helpu i greu darlun o'u cymuned yn y gorffennol.

**Cyflwyniad**

Mae'r gweithgaredd hwn yn canolbwyntio ar yr enwau sy'n cael eu coffáu ar eich cofeb ryfel ac mae'n adeiladu ar y sgiliau ymchwil a ddefnyddiwyd yng Ngweithgaredd 2.

Cyn gwneud y gwaith ymchwil, gwnewch grynodeb o'r hyn y mae'r disgyblion eisoes wedi'i ddysgu am y gofeb ryfel. Nesaf, gwnewch restr o'r enwau ar y gofeb a gofynnwch y cwestiynau isod:

- Faint o'r rhai sy'n cael eu coffáu fu'n ymladd yn y Rhyfel Byd Cyntaf?
- A oes rhai cyfenwau'n digwydd fwy nag unwaith? Os felly, pam rydych chi'n meddwl y mae hynny?
- A oes rhyw wybodaeth ar wahân i'w henw? A fydd hyn yn helpu â'r ymchwil?
- A oedd rhestr o enwau yn yr adroddiad papur newydd am seremoni gysegru'r gofeb ac, os felly, a yw'r enwau hynny'n cyfateb i'r rhai sydd ar y gofeb ac a oes rhyw wybodaeth ychwanegol yno?

Mae Adnodd 3 yn rhestr o'r enwau sy'n cael eu coffáu ar blac coffa Llanfair-ym-Muallt a nodir beth yw ystyr y byrfoddau a ddefnyddir ar gyfer y rhengau a'r catrodau. Gall hyn eich helpu i ddehongli'r wybodaeth ar eich cofeb chi.

**Ymarferiad**

Nid mewn catrodau Cymreig y listiodd pawb o Gymru. Mae cofeb Llanfair-ym-Muallt yn enghraifft dda o'r gwasanaethau amrywiol y bu dynion yr ardal yn aelodau ohonynt.

Gan ddefnyddio Adnodd 3, gofynnwch i'r disgyblion nodi'r holl gatrodau a gwasanaethau a restrir.  Allan nhw ddod o hyd iddynt ar fap o'r Deyrnas Unedig? Yn eu barn nhw, pam roedd dynion o ardal Llanfair-ym-Muallt yn listio mewn catrodau o Gymru a'r tu allan i Gymru?

Nid yw cofebau rhyfel bob amser yn rhoi gwybodaeth am gatrodau ac felly mae angen chwilio ar lein i ganfod y manylion hyn.

Y dudalen nesaf

www.Powys.gov.uk




**Dangos sut i chwilio**

Mae'r gweithgaredd hwn yn canolbwyntio ar ddefnyddio cronfa ddata Comisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad (CWGC) lle gallwch chwilio am y rhai a laddwyd yn ôl eu cyfenw.

*cliciwch yma i fynd i www.cwgc.org*

Po fwyaf o wybodaeth sydd gennych chi, hawsa'n y byd y bydd chwilio. Fel enghraifft, gadewch i ni gymryd dau enw o blac coffa Llanfair-ym-Muallt.

Os chwiliwch am 'Private Owen Jones' fe gewch 52 o ganlyniadau a byddai'n rhaid i chi chwilio trwy bob un ohonynt. Ar y llaw arall, os chwiliwch am 'Private William Wheeler, Manchester Regiment', dim ond un canlyniad a gewch. Mae dau reswm am hyn: rhodwyd mwy o wybodaeth am William Wheeler ac mae 'Wheeler' yn enw mwy anghyffredin na 'Jones' yng Nghymru.

Mae'n bwysig bod disgyblion yn cofnodi'r wybodaeth a gânt yn ofalus. Mae Adnodd 4 yn cynnig taflen gofnodi sy'n defnyddio fformat Comisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad ar gyfer casglu gwybodaeth.

Mae cronfa ddata CWGC yn hawdd ei defnyddio:

1. Yn yr Hafan (Home Page), nodwch enw'r un rydych yn chwilio amdano, ei wasanaeth, a'r rhyfel y bu'n ymladd ynddo yn y blwch 'Find War Dead' a chliciwch 'Search'.
2. Os oes mwy nag un canlyniad yn ymddangos i'r chwiliad, gallwch roi rhagor o wybodaeth yn y blwch 'Filter Results' ar y chwith ac yna glicio 'Filter Results'.
3. Cliciwch ar enw'r person i gael rhagor o wybodaeth neu ganolbwyntio'r chwiliad os oes mwy nag un canlyniad yn dal i ymddangos.

*Y dudalen nesaf*



Sut i ddefnyddio'r pecyn hwn
Coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf
Y Rhyfel Byd Cyntaf
Cofebion rhyfel
Ymchwilio i gofebion rhyfel
Cofnodi cofebion rhyfel a gofalu amdanynt
Gweithgareddau
Adnoddau

**Dadansoddi'r data**
Beth mae'r wybodaeth o gronfa ddata CWGM yn ei ddweud wrthym?

O'u gwaith ymchwil a'r pethau y maent wedi'u nodi ar eu taflen ddata, efallai y gall y disgyblion ganfod:

- Ble y cafodd yr un a fu farw ei eni
- Ble y buodd farw
- A oes ganddo fedd neu a yw'n cael ei gyfrif fel un sydd ar goll
- Ble'r oedd yn byw
- Pwy oedd ei deulu
- A oedd yn gwasanaethu mewn catrawd Gymreig

**Cyflwyno'ch gwybodaeth**
Gellir cyflwyno'r wybodaeth a gasglwyd gan y disgyblion gan ddefnyddio nifer o wahanol sgiliau yn cynnwys llythrennedd, TG a daearyddiaeth.

Dyma rai awgrymiadau:

- Creu cronfa ddata o'r enwau.
- Ysgrifennu adroddiad am yr enw neu'r enwau.
- Gwneud adroddiad fideo am y milwyr a enwir ar y gofeb.
- Ysgrifennu adroddiad ymarferol o'r broses ymchwilio.
- Creu cyflwyniad PowerPoint yn dilyn y gwaith ymchwil cam wrth gam.
- Ysgrifennu bywgraffiad sylfaenol o un o'r rhai a fu farw.
- Ysgrifennu "hunangofiant" un o'r rhai a fu farw.
- Gwneud map yn dangos lle y bu farw'r dynion sy'n cael eu coffáu.

**Gweithgareddau estynedig CA3 a CA4**

Ar ôl ymchwilio i gronfa ddata CWGC, gallai disgyblion CA3 a CA4 ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd i ymchwilio i gronfeydd data eraill.

Defnyddiwch wefan Ancestry i chwilio trwy gofnodion milwrol er mwyn canfod lle y dechreuodd milwr ar ei wasanaeth tramor a pha fedalau a enillodd.

Defnyddiwch wefan Ancestry i chwilio trwy ffurflenni cyfrifiadau 1901 a 1911 er mwyn cael rhagor o wybodaeth am deulu ac amgylchiadau personol y milwr.

Chwiliwch trwy Papurau Newydd Cymru Arlein i weld a welwch gyhoeddiad am farwolaeth y milwr.

Gallech ganfod i ble'r aeth milwyr mewn catrodau Cymreig trwy ddefnyddio'r wybodaeth yn Adnodd 8 a phlotio'r gwledydd ar fap o'r byd.

Cliciwch yma i fynd i Adnodd 8

Y dudalen nesaf

www.Powys.gov.uk

Sut i ddefnyddio'r pecyn hwn
Coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf
Y Rhyfel Byd Cyntaf
Cofebion rhyfel
Ymchwilio i gofebion rhyfel
Cofnodi cofebion rhyfel a gofalu amdanynt
Gweithgareddau
Adnoddau

Gweithgaredd 4

## Epitaffau

CA2 CA3

**Deilliannau Dysgu**

Ar ôl y gweithgaredd hwn, bydd y disgyblion yn gallu:

- Adnabod epitaff
- Deall yr ystyr y tu ôl i epitaff
- Defnyddio sgiliau llythrennedd i greu eu hepitaff eu hunain

**Cyflwyniad**

Ymadrodd neu eiriau a ysgrifennwyd er cof am rywun sydd wedi marw, yn enwedig ar ffurf arysgrif ar garreg fedd, yw epitaff. Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf ac wedyn, cafodd beirdd ac awduron fel Rudyard Kipling a John Maxwell Edmonds eu comisiynu i gyfansoddi epitaffau er cof am aelodau o'r lluoedd arfog a syrthiodd.

Mae epitaffau'n tueddu i fod yn fyr ac yn gofiadwy, yn rhoi crynodeb o'r hyn a gyflawnodd yr un a fu farw. Nid yw'n rhaid i epitaff odli ond dylai fod rhythm i'r geiriau.

Edrychwch ar y gwahanol fathau o epitaffau yn Adnodd 5 a thrafodwch y materion isod gyda'r disgyblion:

- Pa fath o iaith, ymadroddion a geirfa a ddefnyddir? Gwnewch restr o eiriau perthnasol.
- Beth yw'r gwahaniaeth rhwng yr epitaffau?
- Ym marn y disgyblion, pa enghreifftiau yw'r mwyaf grymus?
- Ym marn y disgyblion, pa enghreifftiau oedd yr anoddaf yw cyfansoddi?
- Ydyn nhw i gyd yn grefyddol?

Ar ôl dadansoddi'r epitaffau, dylai'r disgyblion fod yn gallu gweld bod epitaffau'n gallu:

- Cynnwys geiriau fel 'honour', 'glory', 'cof', 'diolchgar'.
- Cyfeirio at dragwyddoldeb, byw yn y nefoedd am byth, ac aberth.
- Bod yn grefyddol neu'n seciwlar.
- Ennyn emosiynau cryf trwy ddefnyddio ychydig o eiriau.

**Ymarferiad**

Yn yr ymarferiad hwn, bydd y disgyblion yn defnyddio gwybodaeth a gasglwyd yn ystod eu hymchwil yng Ngweithgaredd 3 i ysgrifennu epitaff ar gyfer y rhai a enwir ar y gofeb ryfel leol.

Cyn ysgrifennu'r epitaff, bydd angen iddynt ystyried:

- Tybed beth oedd rhinweddau'r milwyr.
- Tybed beth yr oeddent wedi'i gyflawni.
- Pa effaith a gâi eu haberth ar y bobl gartref.

Ar ôl ystyried y cwestiynau hyn, dylai'r disgyblion gyfuno'u meddyliau â'r eirfa a'r ymadroddion a drafodwyd o'r blaen er mwyn gwneud epitaff syml, un llinell neu bedair llinell.

Y dudalen nesaf

www.Powys.gov.uk

Gweithgaredd 5

## Dylunio cofeb ryfel

CA2 CA3

**Deilliannau Dysgu**
Ar ôl y gweithgaredd hwn, bydd y disgyblion yn gallu:

- Adnabod nodweddion dylunio allweddol cofeb ryfel.
- Adnabod y symboliaeth a ddefnyddir mewn cofebau rhyfel.
- Cyfuno'r elfennau hyn i ddylunio cofeb ryfel.

**Cyflwyniad**
Mae Adnodd 6 yn dangos deg math o gofebau rhyfel o wahanol ddyluniadau, gan ddefnyddio enghreifftiau o Bowys.

Edrychwch ar y lluniau gyda'r disgyblion a thrafod y gwahanol arddulliau. Gofynnwch y cwestiynau isod:

- A oes nodweddion yn gyffredin rhyngddynt?
- Lle maen nhw?
- A yw'r rhai sydd y tu allan yn wahanol i'r rhai sydd y tu mewn?
- A oes pwrpas ymarferol i rai ohonynt?
- A ydyn nhw i gyd wedi'u gwneud o'r un pethau?
- A yw'r deunyddiau yn addas ar gyfer y lleoliad?
- A oes un na wnaed i fod yn gofeb ryfel yn wreiddiol?
- A oes rhyw symbolau wedi'u defnyddio ar y cofebau rhyfel?

Mae tri symbol yn digwydd yn aml ar y cofebau rhyfel a ddangosir yn Adnodd 6. Mae cofeb Maesyfed yn dangos milwr â'i reiffl o chwith fel arwydd o barch; mae cofeb Penybont yn dangos cleddyf aberth, wedi'i addasu o Groes Aberth Blomfield; mae torch goffa yn ran o ddyluniad cofeb Llanandras.

**Ymarferiad**
Cyn dylunio cofeb ryfel, dylai'r disgyblion ystyried y materion isod:

- Lle fydd y gofeb yn cael ei rhoi?
- Pwy mae'r gofeb yn eu coffáu?
- O ba ddeunyddiau y caiff ei hadeiladu?
- Pa mor fawr fydd y gofeb?
- Pa symbolau fydd fwyaf addas?

Dylid annog y disgyblion i ddylunio'r gofeb ryfel gan ddefnyddio gwahanol gyfryngau – o frasluniau a modelau i graffeg cyfrifiadurol os yw hynny'n berthnasol neu'n addas. Dylid cynnwys esboniad o'r dyluniad gyda'r gwaith gorffenedig.

Mae lluniau o frasluniau a chynlluniau gwreiddiol Edward Lutyens ar gyfer y Senotaff yn Whitehall i'w gweld ar wefan yr Imperial War Museum. Efallai y byddant o gymorth i ysbrydoli'r dylunwyr ifanc.

www.iwm.org.uk/collections/item/object/17081

www.iwm.org.uk/collections/item/object/17082

www.iwm.org.uk/collections/item/object/17083

www.iwm.org.uk/collections/item/object/17084

www.iwm.org.uk/collections/item/object/17085

Y dudalen nesaf

www.Powys.gov.uk

# ⑦ Adnoddau

Yn yr adran hon fe welwch:


| | |
|---|---|
| Adnodd 1 | Taflen Gofnodi Cofeb Ryfel CA2 |
| Adnodd 1a | Taflen Gofnodi Cofeb Ryfel CA3/4 |
| Adnodd 2 | Adroddiad am Gofeb Ryfel o'r Archifau |
| Adnodd 2a | Adroddiad o Gyfarfod Cysegru Cofeb Ryfel |
| Adnodd 3 | Enwau sydd ar Gofeb Ryfel Eglwys y Santes Fair, Llanfair-ym-Muallt. |
| Adnodd 4 | Taflen i Gasglu Data wrth Ymchwilio i Enwau |
| Adnodd 5 | Enghreifftiau o Epitaffau |
| Adnodd 6 | Dyluniadau cofebion rhyfel |
| Adnodd 7 | Map o Ewrop yn 1914 |
| Adnodd 8 | Catrodau Cymru |
| Adnodd 9 | Rhestr o'r gwledydd oedd yn rhan o'r rhyfel |
| Adnodd 10 | Ffurflen Gofnodi Cofeb Ryfel |











# Taflen Gofnodi Cofeb Ryfel



Tynnwch lun y gofeb yma neu dewiswch un darn o'r dyluniad a'i gopïo'n ofalus.

Adnodd 1

*Prosiect Cofebion Rhyfel Powys*

# Taflen Gofnodi Cofeb Ryfel

CA2

Pa fath o gofeb ryfel yw hon?

O ba ddeunyddiau y gwnaed y gofeb?

Pa ryfeloedd y mae'n eu coffáu?

Nodwch y dyddiadau yma:

Faint o enwau sydd arni?

Ysgrifennwch enw neu enwau yr ydych yn eu hadnabod neu enw rhywun yr hoffech wybod mwy amdano.

Cofnodwch y mesuriadau yma

*Prosiect Cofebion Rhyfel Powys*

# Taflen Gofnodi Cofeb Ryfel



| | |
|---|---|
| Lleoliad<br>*(i gynnwys cyfeirnod grid a disgrifiad)* | |
| Math o gofeb ryfel | |
| Deunyddiau | |
| Pa ryfel sy'n cael ei goffáu? | |
| Enwau y rhai sy'n cael eu coffáu<br>*(nodwch y nifer)* | |
| Ysgrifen<br>*(ar wahân i enwau'r rhai sy'n cael eu coffáu)* | |
| Cyflwr:<br>*A yw'r gofeb wedi'i difrodi, wedi cracio, wedi'i herydu?*<br>*A oes modd darllen yr ysgrifen?*<br>*A yw adeiladwaith y gofeb yn ddiogel?* | |
| A yw'r gofeb wedi'i chau i ffwrdd neu a yw'n hawdd mynd ati? | |
| Mesuriadau<br>*(os oes modd)* | |

# Adroddiad am Gofeb Ryfel o'r Archifau

Dyma drawsgrifiad wedi'i olygu o'r adroddiad am y gofeb ryfel yn Eglwys y Santes Fair, Llanfair-ym-Muallt. *[Sylwch: Yn yr enghraifft hon, mae'r arysgrif wedi'i chofnodi o dan 'Physical Description' mewn camgymeriad]*

## ST MARY'S PARISHIONERS – WW1 PLAQUE

**Our ref:** 7100

**Address:** St Mary's Church
Builth Wells
Powys
Wales

**Type:** Board/Plaque/Tablet
**OS Map Re:** SO 041 513

**Inscription:**

**Components**

| Component | Material | Height | Width | Depth | Condition |
|---|---|---|---|---|---|
| Plaque | Brass | 107cm | 61cm | | Good |

**Physical Description**
To the Glory of God/and in honoured memory/of the following who gave their lives/for their King and Country/in the Great War 1914-1919 (followed by names)

**Wars Commemorated & People Remembered**

| | |
|---|---|
| **War** | First World War (1914-1918) |
| **Total names on memorial** | 61 |
| **Served & Returned** | 0 |
| **Died** | 61 |
| **Exact account** | Not known |
| **What information is listed** | Surname, rank, regiment |

**Craftsmen**

| Name | Occupation |
|---|---|
| G Hay | Founder/foundry |

# Adroddiad o Gyfarfod Cysegru Cofeb Ryfel

Dyma erthygl bapur newydd yn adrodd am seremoni gysegru cofeb ryfel yn Eglwys y Santes Fair, Llanfair-ym-Muallt, o Papurau Newydd Cymru Arlein. (Cafodd cofeb gyhoeddus ei chodi wedyn yn 1924 yn ychwanegol at y plac yn yr eglwys.)

Brecon County Times, Neath Gazette and General Advertiser
25 Rhagfyr 1919

## WAR MEMORIAL

### At Builth Parish Church

There was a large congregation at the Parish Church, Builth, on Wednesday evening the 17th inst., when a brass tablet to the honour of those from the parish who had fallen in the Great War was dedicated by the Rev. S. H. Wenham, vicar of Clyro. The tablet was provided by the members of the Red Cross Working Party, which was formed in October, 1914, and continued to make garments &c.. for soldiers and sailors till the spring of this year and it has been placed in the East end. The names inscribed on it are as follows:-Lce.-Cpl. E. J. Allen, S.W.B., Pte Gilbert Arthur, M.G.C. Sub.-Lieut. Donald F. Bailey, R.N.D. Pte Reginald Bevan, Aus. Inf. Pte Charles Burton Pte Jack Davies, Brecknocks Pte J. T. Davies. S.W.B. Pte R. S. Davies, Can. Inf. Pte Thomas Davies, Midd. Regt. R.S.M. J. T. Davies, R.A.S.C. Pte William Davies, M.G.C. Pte Chris. Dean, S.W.B., Lce.-Cpl. Ivor E. Evans, S.W.B. Stoker L. T. Evans, H.M.S. Monmouth Pte Raymond Evans, Can. L. Inf. Pte Benjamin Gould, 65th Lab. Cps. Pte W. S. Griffiths, S.W.B. Pte A. B. Hamer, Roy. Fus. Pte James Harris, S.W.B. Lieut. Rupert C. Inglis, 3rd S.W.B.; Pte F. W. Jamieson, Can. M.G.C. Pte Hugh Jarvis Pte E. L. Jones Lieut. H. V. Jones, R.W.F.; Pte Bert Jones, Sher. Fors. Pte J. Jones, Devon Regt. Pte J. L. Jones Pte Owen Jones Bombr. Charles Martin, R.F.A. Bomb. Evan Morgan Captain I. A. Morgan, S.W.B. Pte John Morgan Pte J. P. Morgan, R.W. Surrey Pte Thomas Morgan, Kings Liv. Pte Fred Owen, S.W.B. Lce.- Cpl. G. H. Painter, Border Regt, Gunner T. Pitman, R.F.A. Pte Ivor Powell, Can. Inf. B. Sn. M. T. Pratt, R. Marine Pte Lawrence Price, Welsh Regt. Pte James Price, S.W.B.; Pte Fred Price, R.A.M.C. 2nd Lieut. W. Pugh Pte R. J. Pugh, R.W.F. 2nd Lieut. Cyril Robinson, R.A.F. 2nd Lieut. A. E. Spencer, Sher.-Fors. Lce.- Cpl. George Thomas, S.W.B. Sergt. S. H. Vest, R.E. Pte T. R. Vest, North Staffs. Pte J. H. Watkins, R.W.F. Rifleman R. Wearn, 2nd W.R. Sapper J. Wheeler, R.E. Pte. William Wheeler, Manch. Regt Pte E. E. Wright, Cheshire Regt. Pte Charles Williams Pte Cyril Williams, Brecknocks Lieut. Fred Williams, R.A.F. Pte Douglas White, R.W.F. The vicar (the Rev. H. J. Church Jones) took the service and special hymns were sung, and Mr Wenham, after dedicating the tablet, preached an appropriate sermon. A collection was made for St. Dunstan's Hostel for sailors and soldiers blinded in the war and amounted to £5. Mr H. Morrow presided at the organ.

*Prosiect Cofebion Rhyfel Powys*

# Enwau sydd ar Gofeb Ryfel Eglwys y Santes Fair, Llanfair-ym-Muallt

Lce.-Cpl. E. J. Allen S.W.B.
Pte Gilbert Arthur, M.G.C.
Sub.-Lieut. Donald F. Bailey, R.N.D.
Pte Reginald Bevan, Aus. Inf.
Pte Charles Burton
Pte. Jack Davies, Brecknocks
Pte J. T. Davies. S.W.B.
Pte R. S. Davies, Can. Inf.
Pte Thomas Davies, Midd. Regt.
R.S.M. J. T. Davies, R.A.S.C.
Pte William Davies, M.G.C.
Pte Chris. Dean, S.W.B.,
Lce.-Cpl. Ivor E. Evans, S.W.B.
Stoker L. T. Evans, H.M.S. Monmouth
Pte Raymond Evans, Can. L. Inf.
Pte Benjamin Gould, 65th Lab. Cps.
Pte W. S. Griffiths, S.W.B.
Pte A. B. Hamer, Roy. Fus.
Pte James Harris, S.W.B.
Lieut. Rupert C. Inglis, 3rd S.W.B.
Pte F. W. Jamieson, Can. M.G.C.
Pte Hugh Jarvis
Pte E. L. Jones
Lieut. H. V. Jones, R.W.F
Pte Bert Jones, Sher. Fors.
Pte J. Jones, Devon Regt.
Pte J. L. Jones
Pte Owen Jones
Bombr. Charles Martin, R.F.A.
Bomb. Evan Morgan
Captain I. A. Morgan, S.W.B.
Pte John Morgan
Pte J. P. Morgan, R.W. Surrey
Pte Thomas Morgan, Kings Liv.
Pte Fred Owen, S.W.B.
Lce.- Cpl. G. H. Painter, Border Regt,
Gunner T. Pitman, R.F.A.
Pte Ivor Powell, Can. Inf.
B. Sn. M. T. Pratt, R. Marine
Pte Lawrence Price, Welsh Regt.
Pte James Price, S.W.B.;
Pte Fred Price, R.A.M.C. 2nd
Lieut. W. Pugh
Pte R. J. Pugh, R.W.F.
2nd Lieut. Cyril Robinson, R.A.F.
2nd Lieut. A. E. Spencer, Sher.-Fors.
Lce.- Cpl. George Thomas, S.W.B.
Sergt. S. H. Vest, R.E.
Pte T. R. Vest, North Staffs.
Pte J. H. Watkins, R.W.F.
Rifleman R. Wearn, 2nd W.R.
Sapper J. Wheeler, R.E.
Pte. William Wheeler, Manch. Regt
Pte E. E. Wright, Cheshire Regt.
Pte Charles Williams
Pte Cyril Williams, Brecknocks
Lieut. Fred Williams, R.A.F.
Pte Douglas White, R.W.F.

*Prosiect Cofebion Rhyfel Powys*

# Enwau sydd ar Gofeb Ryfel Eglwys y Santes Fair, Llanfair-ym-Muallt

**Esboniad o'r byrfoddau**

**Ranks**

| | |
|---|---|
| Bomb. | Bombardier |
| Bombr. | Bombardier |
| B.Sn. | Boatswain/Bosun? |
| Lce.-Cpl | Lance Corporal |
| Lieut. | Lieutenant |
| Pte. | Private |
| R.S.M | Regimental Sergeant Major |
| Sergt. | Sergeant |
| Sub. Lieut. | Sub Lieutenant |

**Catrodau/gwasanaethau**

| | |
|---|---|
| Aus. Inf. | Australian Infantry Corps |
| Brecknocks | Brecknockshire Regiment |
| Border Regt. | Border Regiment |
| Can. Inf. | Canadian Infantry |
| Can. L. Inf. | Canadian Light Infantry |
| Can. M.G.C. | Canadian Machine Gun Corps |
| Cheshire Regt. | Cheshire Regiment |
| Devon Regt. | Devon Regiment |
| Kings Liv. | Kings Liverpool Regiment |
| Manch. Regt. | Manchester Regiment |
| Midd. Regt. | Middlesex Regiment |
| M.G.C. | Machine Gun Corps |
| North Staffs. | North Staffordshire Regiment |
| R.A.F. | Royal Air Force |
| R.A.M.C. | Royal Army Medical Corps |
| R.A.S.C. | Royal Army Service Corps |
| R.E. | Royal Engineers |
| R.F.A. | Royal Field Artillery |
| Roy. Fus. | Royal Fusiliers |
| R.N.D. | Royal Naval Division |
| R.W.F. | Royal Welsh Fusiliers |
| R.W. Surrey | Royal West Surrey Regiment |
| Sher. –Fors. | Sherwood Foresters [based in Derby] |
| S.W.B. | South Wales Borderers |
| Welsh Regt. | Welsh Regiment |
| W.R. | Welsh Regiment |
| 65th Lab. Cps. | 65th Labour Corps |

Adnodd 4

*Prosiect Cofebion Rhyfel Powys*

# Taflen i Gasglu Data wrth Ymchwilio i Enwau

**Gwybodaeth o'r gofeb ryfel**

Cyfenw:

Llythrennau blaen / Enw(au) cyntaf:

Rheng:

Catrawd/gwasanaeth:

**Gwybodaeth gan Gomisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad**

| Enw | Rheng | Rhif Gwasanaeth | Dyddiad Marw | Oedran |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

| Catrawd/ Gwasanaeth | Gwlad y gwasanaethodd ynddi | Cyfeirnod y Bedd neu'r Gofeb | Enw'r Fynwent neu'r Gofeb |
|---|---|---|---|
| | | | |

Gwybodaeth Ychwanegol

*Prosiect Cofebion Rhyfel Powys*

# Enghreifftiau o Epitaffau

Mae'r epitaffau isod i gyd wedi'u cymryd o gofebau rhyfel ym Mhowys. Epitaff enwog Maxwell Edmonds o fynwent ryfel y Cynghreiriaid yn Kohima yw Epitaff 1. Fe'i defnyddiwyd ar gofeb ryfel Trefaldwyn hefyd. Rudyard Kipling a ysgrifennodd Epitaff 3.

**Epitaff 1 Trefaldwyn**

*'When you go home*
*Tell them of us and say*
*For your tomorrow*
*We gave our today'*

**Epitaff 2 Aberedw**

*'Greater love hath no man than this*
*That a man lays down his life for his friends'*

**Epitaff 3 Bwlch y Cibau**

*'Their name liveth for evermore'*

**Epitaff 4 Hirnant**

*'Duty nobly done'*

**Epitaff 5 Llanfair Caereinion**

*'To the Glory of God and in grateful memory of those from this parish*
*who gave up their lives for liberty in the Great War'*

**Epitaff 6 Eglwys y Santes Fair, Abaty Cwm-hir**

*'Remember with love and honour*
*Those who died for us in the Great War*
*Grant them O Lord eternal rest*
*Let light perpetual shine upon them'*

**Epitaff 6 Llanandras**

*'To our glorious dead'*

Adnodd 6

*Prosiect Cofebion Rhyfel Powys*

# Dyluniadau cofebion rhyfel



Croes



Cerfluniau o bobl




Senotaff



Obelisg



Colofn

Adnodd 6

*Prosiect Cofebion Rhyfel Powys*

# Dyluniadau cofebion rhyfel




Rhestr Gwroniaid



Llechen/plac



Cofebion defnyddiol




Ffitiadau eglwysi



Troffi

*Prosiect Cofebion Rhyfel Powys*

# Map o Ewrop yn 1914



*Prosiect Cofebion Rhyfel Powys*

# Catrodau Cymru

Roedd pedair catrawd o filwyr traed yng Nghymru adeg y Rhyfel Byd Cyntaf.

**1. Cyffinwyr De Cymru**

- Catrawd o filwyr traed ym Myddin Prydain. Ffurfiwyd y gatrawd gyntaf yn 1689. Buont yn gwasanaethu mewn nifer o frwydrau, yn cynnwys Rhyfel Chwyldro America, brwydrau yn India, y Rhyfel Zulu a'r Rhyfel yn erbyn y Boeriaid, cyn y Rhyfel Byd Cyntaf.
- Yn Aberhonddu yr oedd eu pencadlys ac o dde Cymru, yn bennaf, yr oeddent yn recriwtio.
- Roedd dau fataliwn parhaol ar ddechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd un ohonynt yn Tsieina pan gyhoeddwyd y rhyfel. Aeth yr ail fataliwn parhaol i Ffrainc fel rhan o Fyddin Ymgyrchol Prydain, a anfonwyd i ardal Ypres ar Ffrynt y Gorllewin pan ddechreuwyd ymladd yn y ffosydd ym 1914.




- Ar ôl eu recriwtio, anfonwyd y milwyr i wersylloedd hyfforddi ym Mharc Cinmel ym Modelwyddan, ger Abergele yn y gogledd.
- Aeth bataliynau i Thesalonica, Palesteina a Gallipoli.
- Listiodd rhwng 1200 a 1400 o ddynion yn Aberhonddu.
- Bu'r Cyffinwyr ar faes y gad mewn sawl gwahanol le yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.
- Unwyd Cyffinwyr De Cymru, y Gatrawd Gymreig a'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig i fod yn 38ain Adran Gymreig, a elwir hefyd yn Adran Gymreig Lloyd George.
- Daethant yn rhan o Gatrawd Frenhinol Cymru yn 1969 ac erbyn hyn maent yn rhan o'r Cymry Brenhinol.

**2. Catrawd Sir Fynwy**

- Catrawd o filwyr traed tiriogaethol oedd Catrawd Sir Fynwy. Fe'i ffurfiwyd yn Sir Fynwy yn 1859 i fod yn uned wirfoddol o reifflwyr.
- Daeth tair o fataliynau Corfflu Reifflwyr Gwirfoddol Sir Fynwy – y 1af, yr 2il a'r 3ydd – yn rhan o Gyffinwyr De Cymru yn 1881.
- Ymunodd llawer o lowyr â Chatrawd Sir Fynwy.
- Aethant i Ffrainc a Fflandrys a dioddef llawer o golledion yn Ail Frwydr Ypres yn 1915.
- Daeth Catrawd Sir Fynwy yn rhan o Gatrawd Frenhinol Cymru yn 2006 ac erbyn hyn maent yn rhan o'r Cymry Brenhinol.

### 3. Y Gatrawd Gymreig




- Roedd 34 bataliwn yn y Gatrawd Gymreig yn y Rhyfel Byd Cyntaf.
- Buont yn gwasanaethu mewn sawl ardal wahanol ond anfonwyd y rhan fwyaf o'r milwyr i Ffrainc a Gwlad Belg.
- Bu 19 o'r 34 bataliwn yn ymladd dramor a chafodd bron 8,000 o'u swyddogion a'u milwyr eu lladd neu buont farw o'u hanafiadau neu afiechydon cysylltiedig â'r rhyfel.

### 4. Ffiwsilwyr Brenhinol Cymru




- Catrawd o filwyr traed ym Myddin Prydain ac un o'r catrodau hynaf yn y fyddin barhaol. Dyna pam y defnyddir yr hen sillafiad 'Welch' yn yr enw Saesneg, 'Royal Welch Fusiliers'.
- Roeddent yn recriwtio o ganolbarth a gogledd Cymru.
- Cawsant golledion erchyll ym mrwydr Coed Mametz yn 1916.
- Roeddent ymhlith y rhai a gymerodd ran yn y gêm bêl-droed enwog rhwng milwyr o Brydain, yr Almaen a Ffrainc adeg y Nadolig 1914.
- Bu nifer o awduron a beirdd enwog yn gwasanaethu gyda gwahanol fataliynau'r gatrawd yn Ffrainc, yn cynnwys Siegfried Sassoon, Robert Graves, David Jones, Hedd Wyn, a Frank Richards.
- Erbyn hyn, nhw yw Bataliwn Cyntaf Catrawd y Cymry Brenhinol.

Adnodd 9

*Prosiect Cofebion Rhyfel Powys*

# Rhestr o'r gwledydd oedd yn rhan o'r rhyfel

## Pwerau'r Cynghreiriaid (Yr Entente)

| |
|---|
| Andorra |
| Gwlad Belg |
| Brasil |
| Ymerodraeth Prydain, yn cynnwys Teyrnes Unedig Prydain Fawr ac Iwerddon, Awstralia, Canada, India, Malta, Rhodesia, Newfoundland, New Hebrides, Seland Newydd, De Affrica |
| Tsieina |
| Costa Rica |
| Llengoedd Tsiecoslofacia |
| Ffrainc |
| Gwlad Groeg |
| Guatemala |
| Haiti |
| Honduras |
| Yr Eidal |
| Japan |
| Liberia |
| Montenegro |
| Nepal |
| Nicaragua |
| Panama |
| Portiwgal |
| Romania |
| Rwsia |
| San Marino |
| Serbia |
| Siam |
| Y Taleithiau Unedig yn cynnwys Alaska, Hawaii, Philippines a Puerto Rico |

## Y Pwerau Canol

| |
|---|
| Ymerodraeth Awstria-Hwngari yn cynnwys Awstria, Bosnia ac Herzegovina, Croatia, Y Weriniaeth Tsiec, Hwngari, rhannau o ogledd-ddwyrain yr Eidal, gogledd Serbia, rhannau o wlad Pwyl, Slofacia, Slofenia a'r Wcráin |
| Azerbaijan a rhannau o Armenia |
| Bulgaria yn cynnwys rhannau o Wlad Groeg a Macedonia |
| Y Wladwriaeth Dderfaidd (rhannau o Somalia) |
| Ymerodraeth yr Almaen: yn cynnwys yr Almaen, Burundi, Cameroon, rhannau bychain o China, rhannau o Gabon, Ghana, Ynysoedd Marshall, Taleithiau Ffederal Micronesia, Namibia, gogledd-ddwyrain Nigeria, Palau, gogledd Papua Guinea Newydd, Gweriniaeth y Congo, Rwanda, Samoa, tir mawr Tanzania a Togo |
| Jabal Shammar yn cynnwys y rhan fwyaf o Saudi Arabia a rhannau o Irac a Gwlad yr Iorddonen |
| Yr Ymerodraeth Otomanaidd yn cynnwys Israel, Lebanon, rhannau o Irac a Gwlad yr Iorddonen, Saudi Arabia, Syria a'r rhan fwyaf o Dwrci |

Adnodd 10

*Prosiect Cofebion Rhyfel Powys*

# Ffurflen Gofnodi Cofeb Ryfel

| At ddefnydd swyddfa yn unig |
|---|
| |

*Cliciwch yma i lenwi'r ffurflen hon ar lein*

1914-18 100

| |
|---|
| Enw'r gofeb |
| Adeilad cysylltiedig – os oes un |
| Lleoliad/cyfeiriad |
| Cyfeirnod grid (os ydych yn gwybod) |
| Perchennog / ceidwad cyfreithiol / pobl â buddiant |
| Manylion cysylltu'r ceidwad |
| Y rhyfel a goffeir (1) |
| Dyddiadau |
| Ysgrifen ar y gofeb (nid yr enwau) |
| Yr enwau<br><br><br><br>Ewch ymlaen ar y dudalen nesaf os oes angen |

# Ffurflen Gofnodi Cofeb Ryfel

Enwau, parhad

Y rhyfel a goffeir (2)

Dyddiadau

Ysgrifen ar y gofeb (nid yr enwau)

Yr enwau

Adnodd 10

*Prosiect Cofebion Rhyfel Powys*

# Ffurflen Gofnodi Cofeb Ryfel

Math o gofeb a disgrifiad ohoni – e.e. croes yn sefyll ar ei phen ei hunan, plac, rhestr gwroniaid etc.

*Gweler Mathau o Gofebion*

O beth y gwnaed y gofeb

*Gweler Deunyddiau Cofebion Rhyfel*

Mesuriadau – mewn cm a metrau

Unrhyw fanylion eraill y gwyddoch amdanynt – e.e. addurnwaith, nodweddion amlwg, pensaer, pobl gysylltieig, cerflunydd, y gost wreiddiol etc.

Unrhyw fanylion eraill yn cynnwys unrhyw waith trwsio sy'n amlwg

*Gofynnir i chi gynnal arolwg o gyflwr y gofeb hefyd*

A oes ffotograffau? Oes ____ Na ____

*Darllenwch Sut i dynnu llun cofeb*

Eich enw

Eich cyfeiriad

Eich rhif ffôn

Ebost

Dyddiad llenwi'r ffurflen